

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 488 • Mai 2018 • 50c

Tair Ysgoloriaeth i Elen Wyn!!!

Llongyfarchiadau enfawr i Elen Wyn, disgybl ym Mlwyddyn 13 Ysgol Dyffryn Ogwen, ar ennill dim llai na thair ysgoloriaeth i astudio Cymraeg a Cherdd ym Mhrifysgol Bangor fis Medi. Mae hi'n astudio'r Fagloriaeth Gymreig, Cerdd, Cymraeg a Mathemateg ar hyn o bryd.

Bu Elen yn llwyddiannus yn ei chais am Ysgoloriaeth William Salesbury sydd werth £5,000 dros gyfnod ei chwrs gradd. Cynigir yr ysgoloriaeth gan Ymddiriedolaeth William Salesbury i ddarpar-fyfrwyr sy'n dymuno astudio eu cwrs cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond dwy ysgoloriaeth o'r fath a gynigir yn flynyddol trwy Gymru. Sefydlwyd yr ymddiriedolaeth gan y diweddar Ddr Meredydd Evans i gefnogi gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n gyfrifol am gynllunio

a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch ac sydd â changen ym mhob prifysgol yng Nghymru.

Fel mae'n digwydd, cafodd Elen gyfle yn eithaf diweddar i ymweld ag ardal William Salesbury yn Nyffryn Clwyd a chael ei hysbrydoli gan ei lwyddiannau a'i gyfraniad aruthrol i barhad yr iaith Gymraeg trwy ei gyfieithiadau a'i ymdrechion i safoni'r iaith ysgrifenedig yn yr 16 ganrif. Dyma'r gŵr a ddywedodd wrth ei gyd-Gymry, "Mynnwch ddysg yn eich iaith", geiriau sydd bellach yn arwyddair y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae Elen hefyd wedi llwyddo yn yr arholiadau ar gyfer ysgoloriaethau Bangor ac am dderbyn Ysgoloriaeth John Hughes sydd werth £3,000. Fel pe bai hyn ddim yn ddigon, yn dilyn perfformiad o unawd

Parhad ar dudalen 3



Ar y Brig (unwaith eto!)



Llongyfarchiadau i ysgolion ffederaleddig Pen y bryn ac Abercaseg ar ennill cydnabyddiaeth fel ysgolion o fewn y categori 1% uchaf drwy Gymru am ennill RHAGORIAETH.

Yn ystod arolygiadau diweddar dynododd ESTYN bod Lles ac Agweddau at Ddysgu yn Rhagorol yn y ddwy ysgol fel ei gilydd. Mae gan bennaeth yr ysgolion llwyddiannus hyn weledigaeth

Parhad ar dudalen 5



Panel Golygyddol

Derfel Roberts
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Neville Hughes.

Y golygydd ym mis Mehefin fydd
Lowri Roberts, 8 Pen y Ffriddoedd,
Tregarth, Bangor, LL57 4NY.
01248 600490.
E-bost: l.roberts11@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 30 Mai
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 14 Mehefin**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

DALIER SYLW: nid oes
gwarant y bydd unrhyw
ddeunydd fydd yn
cyrraedd ar ôl y dyddiad
cau yn cael ei gynnwys.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod:

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Select Conv, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon
Palas Print

Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas
Garej Beran

Dyddiadur y Dyffryn

Mai

- 20** Cymanfa Ysgolion Sul Dosb.
Bangor a Bethesda. Capel Emaus,
Bangor am 10.30
- 21** Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 - 4.00
- 23** Cyfarfod Blynnyddol Balchder Bro
Ogwen. Cefnfaes am 7.00
- 30** Clwb Hanes Rachub a Llanllechid.
Dr. Dafydd Roberts, Festri Carmel
am 7.00.

Mehefin

- 02** Bore Coffi Cronfa Tracy Smith.
Cefnfaes. 10.00 - 12.00.
- 04** Merched y Wawr Tregarth.
Y Wibdaith Flynyddol.
- 07** Sef. y Merched Carneddi. Hanes yr
ardal - Andre Lomozik. Cefnfaes
am 7.00.
- 09** Sioe Amaethyddol Dyffryn
Ogwen. Caeau Rygbi Dôl Ddafydd
Bethesda.
- 09** Marchnad Ogwen ar Faes y Sioe.
- 09** Gig y Sioe. Bryn Fôn a'r Band +
Calfari. Neuadd Ogwen am 7.30.
- 14** Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am
6.45
- 16** Bore Coffi Clwb Nofio Gwynedd.
Cefnfaes. 10.00 - 12.00.
- 20** Gwibdaith Gorffwysfan i
Southport.
- 23** Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.
10.00 - 12.00.
- 30** Bore Coffi Eisteddfod Gadeiriol
Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen.
10.00 - 12.00.

Gorffennaf

- 07** Bwrlwm Haf. Hwyl i Bawb ar
Gaeau Rygbi Bethesda.

Cwsmeriaid Llais Ogwan
Dafydd (Rose)

Os nad ydych wedi cael rhifyn Ebrill
drwy'ch drws ffoniwch gyda'ch enw
a'ch cyfeiriad i Neville Hughes
ar 01248 600853

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn
yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Tair Ysgoloriaeth i Elen Wyn!!!

Parhad o'r dudalen flaen

'O del mio dolce ardor' dyfarnwyd iddi Ysgoloriaeth Berfformio Bangor o £500 y flwyddyn trwy gydol ei chwrs.

Meddai Ieuan Wyn, sy'n aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth William Salesbury ac o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, "Hoffwn longyfarch Elen yn galonnog iawn, a dymuno'n dda iddi gyda'i hastudiaethau. Mae ei llwyddiant personol hi yn dod â bri i'r ysgol a'r ardal. Yn ôl adroddiad y Panel Dyfarnu roedd nifer fawr wedi gwneud cais am yr ysgoloriaethau, a safon y ceisiadau'n neilltuo! o uchel."



EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned. Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mehefin

- £30.00 (150) Myfanwy Wyn Harper, Fferm Tŷ Newydd, Llandygai.
- £20.00 (173) Helen Williams, 4 Penrhiw, Mynydd Llandygai.
- £10.00 (61) Blodeuwedd Wyn, Talgarreg, Carneddi.
- £5.00 (192) Carys Dafydd, Braichmelyn.

Os am ymuno, cysylltwch â **Neville Hughes - 600853**

Rhoddion i'r Llais

- £20 Eirlys Ellis, Bro Emrys, Talybont.
- £10 Er cof am Dafydd oddi wrth Emyr a Heulwen.
- £10 Er cof annwyl am Tom Davies (a fu farw ar 2 Mai 1989), oddi wrth Emyr a Heulwen.
- £5 Carys Dafydd, Braichmelyn.
- £5 Esme le Comte, Braichmelyn.
- £15 Hugh Griffith, 5 Bryn Tirion, Llanfairpwll.
- £20 Er cof am Anne Jones oddi wrth Emyr.
- £20 Er cof am Eric oddi wrth Muriel a'r teulu, Tregarth.

Diolch yn fawr
(Os am ymuno, cysylltwch â **Neville Hughes - 600853**)



Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru



Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Bu Carol, 48 Braichmelyn, yn yr ysbyty am gyfnod byr. Mae adref ac yn gwella ar hyn o bryd. Mae Carol a Nicky yn ffyddlon iawn yn y boreau coffi wythnosol yn yr ardal, ac maent wedi setlo'n iawn yma.

Anfonwn ein cofion at bawb sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.

Collwyd un arall o genod Braichmelyn, sef Kathleen E. Williams, Penrhiw, Mynydd Llandygai. Magwyd Kathleen yn 12 Gernant. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu colled.

Caerhun a Glasinfryn

Cylch Glasinfryn

Daeth Maralyn Pyke-Davies atom i'r Cylch ar 11 Ebrill. Gwirfoddolwr yn Castell Penrhyn yw Maralyn ac yn gweithio yno ers pedair mlynedd ar ddeg. Mae'n mwynhau ei gwaith yn tywys pobl o amgylch y castell ac yn cyfarfod llawer o bedwar ban byd.

Diolchwyd iddi gan Ann Illsley a mwynhawyd paned a sgwrs wedi ei baratoi gan Ann a Marian.

Byddwn yn cyfarfod nesaf ar nos Fercher 9 Mai pan ddaw Nia Williams atom i werthuso a thrafod "Hen Bethau". Ben Stammers fydd gyda ni ar 13 Mehefin i sgwrsio am "Gwennoliaid Duon". Mae Ben yn astudio'r adar yma yng Nglasinfryn, felly bydd o ddiddordeb mawr i bawb yn lleol. Dewch i glywed beth sydd ganddo i'w ddweud. Cofiwch bod croeso i ddynion a merched yno!



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn 01492 641798
Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop

Bethesda

Mary Jones,
maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Tili Viola Jones Roberts, 21 Glanogwen, ar lwyddo “gyda theilyngdod” yn ei arholiad Piano, Gradd Un, yn ddiweddar. Hyfforddir Tili gan Gerwyn Llwyd, Maes y Garnedd, a threfnwyr yr arholiad oedd Bwrdd Cysylltiol yr Ysgolion Cerdd Brenhinol.

Diolch

Dymuna William, Michael a theulu’r diweddar David Elwyn Pritchard (Dafydd Rose), 17 Rhos Elfed, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli un oedd yn annwyl iawn.
Diolch i’r Parchedig Ddr. Huw John Hughes, Dr. J. Elwyn Hughes a’r Parchedig Geraint Hughes am wasanaeth teimladwy, ac i Mrs. Deilwen Hughes ar yr organ.
Diolch hefyd i Mr. Gareth Williams am y treniadau trylwyr.

Derbyniwyd rhoddion o £575 er cof am Dafydd, i’w rhannu rhwng Antur Waunfawr ac Ysgol Pendalar. Teimlad braf oedd gweld y gymuned wedi dod at ei gilydd i gofio am Dafydd. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna teulu’r ddiweddar Ann Jones, 14 Llawr y Nant, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt. Diolch i nyrsus a meddygon Meddygfa Bethesda ac ysbytai Bae Colwyn, Cefni a Gwynedd.
Diolch hefyd i’r Parchedig Dafydd Coetmor Williams, Mrs. Helen Williams a Mr. Stephen Jones am eu gwasanaeth.



Doethuriaeth

Llongyfarchiadau i Huw Mithan o ‘Hafod y Wern’, Ffordd Bangor ar dderbyn ei ddoethuriaeth(PhD) o Brifysgol Caerdydd yn ddiweddar. Roedd traethawd Huw yn ymwneud â chanlyniadau a chynhesu byd eang a’i ddylanwad ar rew parhaol a thirlithriadau yn yr Arctig.

Dymuna Elfed Bullock ddiolch yn fawr iawn i’r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbynodd ar ei benblwydd yn 80 oed ar 13 Ebrill.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr. a Mrs. Thomas Jones, Rhos y Coed, a’r teulu yn eu profedigaeth o golli Mrs. Mai Lewis Bangor, chwaer Heddwen.

Croeso

Mae Paula a David Owen a’r hogia’ Robin a Gruff wedi symud i fyw i 12 Rhos y Coed o Foel Ogwen, Llan. Croeso mawr iddynt a phob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau cynnes i Rhiannon Elfyn a Cian Iolen are eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd, Eryri. Bydd y ddau’n mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ddiwedd mis Mai yn Llanellwly i gystadlu ar y ddeuawd cerdd dant o dan 12 oed. Dymuniadau gorau iddynt. Pob lwc hefyd i Rhiannon ar y gystadleuaeth piano dan 12 oed.

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith:- Linda Elderkin, Maes y Garnedd ac Arthur Williams, Penybryn.

Penblwyddi Arbennig

Bu sawl un yn dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a chofion gorau atoch:
Mr. Elfed Bullock, Maes y Garnedd, yn 80 oed ar 13 Ebrill.
Mrs. Elsie Owen, Bryntirion, yn 80 oed ar 14 Ebrill.
Ffion Roberts, Hen Aelwyd, yn 18 oed ar 22 Ebrill.
Shona Prytherch, Maes Coetmor, yn 21 oed a 27 Ebrill.

Marwolaeth

Ar 5 Ebrill yn yr ysbyty, gynt o Maes y Garnedd, bu farw Maria Patricia Doyle. Roedd yn ferch i’r diweddar Mr. a Mrs. James Doyle, yn chwaer annwyl i Kath, Joan a’r ddiweddar Nancy. Roedd hefyd yn fodryb hoffus. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Gatholig Bangor a’r Amlogsgfa ar ddydd Mercher, 18 Ebrill. Claddwyd ei llwch ym Mynwent Eglwys Coetmor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

Yr Eglwys Unedig

Braf yw gweld y plant yn ôl yn yr Ysgol Sul ac yn ymuno â ni yn yr oedfa. Maent yn ymateb yn dda iawn pan ofynnir cwestiynau iddynt. Maent yn brysur iawn yn eu gwaith ac yn mwynhau bod yng nghwmni ei gilydd.
Mae’r baned ar ôl oedfa’r bore ac ar foreau Iau yn dal i gael nifer dda yn ymuno â ni.
Anfonwn ein cofion at bawb sy’n methu bod efo ni, a hefyd at Mair Jones sydd wedi cael llawdriniaeth ac yn araf wella gartref. Mae nifer wedi cael yr anwyd sy’n mynd o gwmpas yr ardal – brysiwch wella!

Trefn Oedfaon

Mai 20: Cyfarfod Gwobrwyo’r Plant – 10.30yb
Mai 20: Karen Owen – 5.00yp
Mai 27: Mrs. Eirlys Williams – 10.00yb
Mai 27: Mrs. Nerys A. Griffith – 5.00yp
Mehefin 3: Trefniant Mewnol.



Clwb Cerdded Bethesda - Aelodau Clwb Cerdded Bethesda yn mwynhau’r olygfa o safle uchaf y Wifren Wîb ar ôl bod yn y cerbyd efo Eifion Davies.

Mehefin 10: Oedfa yng ngofal Menai Williams – 10.00yb
Mehefin 10: Canon Idris Tomos = 5.00yp
Mehefin 17: Parchg. Gerallt Lloyd Evans 10.00yb a 5.00yp.
Croeso cynnes i bawb.

Y Gymdeithas
Croesawyd pawb gan y llywydd, Rhiannon, a gwnaed y trefniadau ar gyfer y bore coffi i’w gynnal ar y Sadwrn canlynol. Gwnaed elw o £370.00 at y Gymdeithas.
Ein gŵr gwadd yn ein cyfarfod olaf oedd yr Athro Peredur Lynch, Bangor. Cawsom noson ardderchog a difyr iawn yn ei gwmni wrth iddo olrhain yr ochr Lynch o’r teulu. Mwynhawyd y noson yn fawr a diolchwyd iddo gan Jean Ogwen Jones. Angharad Hughes a Barbara Jones oedd yn gwneud y baned – diolch iddynt hwythau!
Trefnwyd y swper diwedd tymor i’w gynnal yn Noddfa, Penmaenmawr, ar 10 Mai.
Trefnwyd Cyfarfod Gweddi mis Mai gan Rhiannon, gyda Ceri ac Elina yn cynorthwyo, a Gwenno yn cyfeilio. Diolch iddynt i gyd.

Gorffwysfan, Stryd Fawr
Ar ddydd Mercher, 25 Ebrill, aeth dros 40 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Gaer. Cafwyd diwrnod da, a phawb wedi mwynhau yn fawr. Cyn cychwyn adref diolchodd y cadeirydd, Mrs. Rhiannon Efans am y trefniadau.
Cofiwch am y wibdaith nesaf i Southport, ddydd Mercher, 20 Mehefin.

Dyweddiad
Llongyfarchiadau i Mair Yvonne Parry, merch ieuengaf y diweddar Marilyn a Ron Parry ar ei dyweddiad efo Gwynant Maxwell.

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00

ORIAU AGOR

Llun – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 16:00 a 20:00 – 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219



BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Sefydliad y Merched Carneddi

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol arferol yng Nghanolfan Cefnfaes ar 3 Mai. Rhoddodd ein llywydd groeso cynnes i’r aelodau, a chafwyd ymddiheuriadau gan Alison, Mair a Nancy. ‘Roedd ein cofion cynnes yn mynd at Mair Jones, sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Brysia wella Mair - pwyll bia hi!
Mae gŵr Doris wedi bod yn yr ysbyty yn ogystal a merch yng nghyfraith Gwen - y ddau adra erbyn hyn ac yn gwella. Aeth rhai o’r aelodau i glwb cymdeithasol Llanberis yn ddiweddar i noson yng nghwmni Body Shop. Pawb wedi mwynhau! Fe aeth Rosemary, ein trysorydd, a Gwyneth i weithdy cyfrifon ariannol ym Mhenmaenmawr yn ddiweddar ac wedi cael gwybodaeth ar sut i ddefnyddio a chadw cyfrifon ariannol y sefydliad yn ddiogel. Maent mewn dwylo saff yn awr!
Bydd dwy aelod yn dathlu penblwydd yn ystod y mis ym, sef Eirwen ac Anwen, a hefyd gwŷr tair aelod wedi dathlu penblwyddi arbennig, sef Elfed Bullock,

Gilbert Bowen a Jackie Williams. Gobeithio bydd pawb wedi cael diwrnod i’w gofio !! Fe fydd dwy aelod yn cynrychioli y Sefydliad yng Nghaerdydd ym Mis Mehefin yng nghyfarfod blynyddol Sefydliad y Merched, sef Alison a Nicola. Byddant yn mynd a phenderfyniad y sefydliad ynglŷn â iechyd meddwl i’r cyfarfod .
O’r diwedd, ar ôl ei ohirio oherwydd y tywydd garw, cawsom ginio gwerth chweil yn y Pafiliwn Criced yn Llandygai. Pawb wedi mwynhau yn fawr iawn!
Darllenwyd y cofnodion gan Gwyneth a’r llythyr misol gan Rita cyn rhoi croeso cynnes iawn i’r wraig wadd am y noso, neb llai na Mari Gwilym, a oedd wedi dod a ffrindia gyda hi, sef Emyr, y dyn sain ac Ann, y gyfarwyddwraig sydd yn gweithioi BBCRadio Cymru. Yr oedd y noson yn cael ei recordio ar gyfer rhaglen radio Siân Cothi, ac fe fyddwch yn gallu gwrandao ar y rhaglen mewn rhyw pythefno. Darllen pytau o’i llyfr diweddara oedd Mari. Noson hollol boncys fel fasa chi yn ddychmygu yng nghwmni Mari Gwilym. Llond bol o chwerthin a pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchwyd i Mari, Emyr ac Ann o waelod calon am noson fendigedig gan Rita, ac i’r merched am y baned a’r cacennau – wedi eu gwneud gan Gwen. Enillydd y wobr lwcus, yn rhodd gan Ceinwen, oedd Jean.

Parhad o'r dudalen flaen

glir sy’n seiliedig ar ddarparu addysg o safon uchel i’r disgyblion.
Dywedodd ESTYN : ‘mae gan arweinwyr weledigaeth glir sydd wedi ei rannu’n llwyddiannus rhwng y ddwy ysgol yn y ffederasiwn.’
‘Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o’u man cychwyn ac yn cyflawni safonau uchel. Mae ymddygiad y disgyblion yn wych ac mae yna ymdeimlad o drefn weithgar a pharch drwy’r ysgolion.’
‘Mae safon yr addysgu’n dda ac mae gan y disgyblion gyfleoedd eang i ymgymryd â gweithgareddau heriol sy’n eu hysgogi ac ennyn eu diddordeb. Mae perthynas gref rhwng yr holl oedolion a’r disgyblion ac maent yn ystyried anghenion pob disgybl yn dda. Mae’r staff yn mynnu ar gywirdeb iaith, ac fe adlewyrchir hyn yn yr iaith goeth

a chyfoethog ar wefusau ac yn llyfrau’r disgyblion,’
‘Ers iddynt sefydlu fel corff, mae’r llywodraethwyr wedi cydweithio’n effeithiol â’r pennaeth i ddatblygu gweithgareddau prwpasol i’w cynorthwyo i gael trosolwg clir o fywyd a gwaith y ddwy ysgol fel ei gilydd.’
Dywedodd Orina Pritchard, Cadeirydd y Llywodraethwyr,
‘Mae’n ffraind bod yn aelod o gorff Llywodraethol yr ysgolion llwyddiannus hyn’.
Braf yw derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol a chael sicrhad bod bri ar addysg plant yr ardal. Bydd y cyfleoedd eang y mae ysgolion Pen y bryn ac Abercaseg yn eu darparu yn gymorth i’r disgyblion gymryd rolau arwain yn llwyddiannus ac yn eu paratoi’n dda i fod yn aelodau cyfrifol o’u cymuned.
Diolch i’r holl staff am eu gwaith diflino.

Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan



Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



**DYDDIADUR
BOREAU
COFFI 2018**

2018

19 Mai - Cefnfaes ddim ar gael.

02 Mehefin - Cefnfaes - Cronfa Tracy Smith.

16 Mehefin - Cefnfaes - Clwb Nofio Gwynedd

23 Mehefin - Cefnfaes - Plaid Cymru

30 Mehefin - Neuadd Ogwen - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

07 Gorffennaf - Cefnfaes - Capel Jerusalem.

14 Gorffennaf - Caffi Coed y Brenin - NSPCC

08 Medi - Caffi Coed y Brenin - NSPCC

22 Medi - Cefnfaes - Eglwys St. Tegai

29 Medi - Cefnfaes - Plaid Cymru.

06 Hydref - Cefnfaes - Gorffwysfan.

13 Hydref - Cefnfaes - Cronfa Tracy Smith

20 Hydref - Cefnfaes - Eglwys St. Cedol.

27 Hydref - Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

03 Tachwedd - Cefnfaes - Neuadd Talgai.

10 Tachwedd - Cefnfaes - Clwb Camera

24 Tachwedd - Caffi Coed y Brenin - NSPCC

24 Tachwedd - Cefnfaes - Cronfa Cancr y Prostrat.

01 Rhagfyr - Cefnfaes - Plaid Lafur

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

**CYMHORTHFA
RHEINALLT PUW**

Gorffwysfan

Dydd Mawrth, 22 Mai 2018

4.00 – 5.30

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST

MAI 22 a 29
MEHEFIN 12 a 26

am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

**Carmel
Llanllechid**

Te Bach

Dydd Llun, 21 Mai

2.30 – 4.00

Croeso i bawb!

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
CRONFA GOFFA
TRACY SMITH**

SADWRN, 2 MEHEFIN
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
CLWB NOFIO
GWYNEDD**

SADWRN, 16 MEHEFIN
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

44 fed

**SIOE AMAETHYDDOL
DYFFRYN OGWEN**

Sadwrn, 9 Mehefin 2018

ar Gaeau Rygbi BETHESDA

Mynediad: Oedolion £5
Pensynwyr £3. Plant £1.

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
PLAID CYMRU**

SADWRN, 23 MEHEFIN
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

**CYFARFOD
BLYNYDDOL**

YN Y GANOLFAN
NOS FERCHER, 27 MEHEFIN
AM 7.00YH
CROESO I BAWB

CYMANFA YSGOLION SUL

**DOSBARTH
BANGOR A
BETHESDA**

Capel Emaus, Bangor

Dydd Sul, 20 Mai

am 10.30yb

Croeso i bawb.

**Balchder Bro
Dyffryn Ogwen**

Cyfarfod Blynyddol

Canolfan Cefnfaes

Nos Fercher, 23 Mai

am 7.00yh

Marchnad Ogwen

Mehefin 9fed
Sioe Dyffryn Ogwen

Gorffennaf 14eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Awst 11eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook



Cawl Blodfresych a Brocoli efo Caws Glas

- ½ blodfresych ac 1 brocoli,
- 1 genhinen a ½ nionyn mawr.
- 2 ddeilen lawryf (bay leaf) wedi eu rhwygo (mae hyn yn rhyddhau'r olew).
- 1 llwy de o halen a phupur du bras.
- 2 lwy fawr o olew coginio.
- 2-4 owns o gaws glas, neu gratio caws Cheddar cryf os dymunwch.

Torrwch y genhinen a'r nionyn yn fân, a'u chwysu yn yr olew coginio mewn sosban efo caead ar wres isel.

Hefyd, torrwrch ryw 2" o goes y blodfresych a choes y brocoli a'u plicio cyn eu gratio. Eu hychwanegu i'r sosban.

Eu mudferwi am ryw 6-7 munud.

Torrwch y blodfresych a'r brocoli'n fân.

Meddalwch sgwâr o stoc cyw iâr mewn peint o ddŵr berw.

Tolltwch nhw i'r sosban ac wedyn y dail llawryf, yr holl lysiau a phupur a halen.

Dod i'r berw. Wedyn ei roi ar wres isel a'i fudferwi am ryw 20 munud gan ei droi bob hyn a hyn.

Gellir malu'r cwbl rŵan efo cymysgydd trydan. Gofalwch dynnu'r dail llawryf cyn malu'r cawl!

Torrwch y caws glas, neu'r caws Cheddar, i'r cawl.

Gallwch ychwanegu dipyn o hufen i'ch powlenni os dymunwch.



Garddio

Mae'r haf ar ei ffordd! Fel mae bylbiau'r gwanwyn yn darford mae'r borderi yn dechrau tyfu o ddifri. Gallwch ddechrau plannu hadau yn syth i'r ardd ac o ganol y mis ymlaen gallwch blannu'r blodau blwyddol. [Er bod rhai o'n garddwyr hŷn wedi gweld barrug yn Ardudwy yn hwyr ym mis Mai.]

Gellir cymryd toriadau oddi ar goed meddal. Mi fydd angen torri'r lawnt yn rheolaidd rŵan.

Tasgau

1. Gwyliwch rhag nosweithiau oer, barugog. Mi fydd angen amddiffyn planhigion nad ydyn nhw wedi arfer â bod allan.
2. Mae angen priddo'r tatws wrth iddyn nhw dyfu. Os oes rhai dros ben, mae'n hen bryd eu plannu.
3. Plannwch y blodau blwyddol yn ail hanner y mis.
4. Ystyriwch ddulliau o gasglu dŵr glaw ac ailgylchu dŵr. Mae dŵr glaw yn fwy bendithiol i blanhigion ac mae'n rhad!
5. Dylai'r hof fod yn brysur iawn y mis hwn. Mae'n talu ar ei ganfed i'w ddefnyddio'n aml.
6. Agorwch ddrws a ffenestri'r tŷ gwydr ar ddiwrnod cynnes.
7. Torrwch y lawnt bob wythnos.
8. Cyn i chi dorri gwrychoedd, archwiliwch nhw yn ofalus rhag ofn bod adar yn nythu ynddyn nhw.
9. Gallwch godi'r cennin Pedr a bylbiau eraill y gwanwyn - a rhannu clystyrau mawr ohonynt nhw.

Mae'r tymor plannu yn ei anterth. Gallwch barhau i blannu bron bob llysieuyn.

Tatws: Rydan ni wedi plannu'r tatws cynnar 'Rocket' a 'Swift' ac wedi dewis 'Estima', 'Cara' a 'Desiree' fel tatws diweddar. Plannwyd y 'Rocket' mewn

mawr yn y tŷ gwydr ar Chwefror 21 a'u symud nhw wedyn i 14 o fwcedi mawr efo dwy daten ym mhob un. Byddan nhw'n barod i'w bwyta erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn.

Moron: Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydan ni wedi arbrofi efo bob math o foron. Erbyn hyn tueddwn i gadw at 'Nantes'. Dydy o ddim yn foryn rhy fawr, does dim canol rhy fawr iddo, mae'r blas yn wych ac mae'n cadw'n dda.

Nionod: 'Stuttgarter' a 'Kelsae' yw'r dewis. Fe gadwodd rhain tan fis Ebrill eleni. Mae'r blas yn dda a dydyn nhw ddim yn tyfu'n rhy fawr.

Ffa: 'Aquadulce' blannwyd eleni.

Pys: Gallwch blannu pys cynnar unrhyw amser, hyd yn oed yn hwyr yn y tymor! Yr hen ffefrynnau sydd acw, sef 'Kelvedon Wonder' ac 'Onward'.

Ffa Ffrengig: Er mwyn gwneud y gorau o'r lle, rydan ni'n tyfu 'Cobra' sy'n dringo'n uchel.

Cennin: 'Musselburgh' yw'r dewis. Dydy hi ddim yn tyfu'n rhy fawr ond mae hi'n flasus. Mae hefyd yn cadw'n dda rhag unrhyw bla.

Betys: Mae 'Boltardy' yn ddiguro. Nid yw'n rhedeg i had yn hawdd. Rydan ni hefyd wedi plannu betys hir eleni - 'Cylindra'.

Ffa Dringo: 'Enorma' ddewiswyd eleni ond bu bron i ni fynd am 'Prizewinner'. Ffa hirion, blasus heb lawer o 'linyn'.

Bresych: Dwy hen ffefryn, 'Primo' a 'Greyhound' sydd acw; maen nhw'n ffefrynnau ers tro.

Lety: 'All the Year Round'.

Tomatos: Cefais gasgliad amrywiol gan gyfaill y llynedd ac fe gafwyd cnwd ardderchog. Eleni mae o wedi rhoi 'Money Maker', 'Shirley', 'Ailsa Craig', 'Alicante' 'Gardener's Delight' [un fach goch], a 'Sungold' [un fach oren - mae'n felys iawn] i mi. Roedd ganddo fymryn dros ben ddiwedd yr wythnos diwethaf. Gair i gall!

NEUADD OGWEN

GIG Y SIOE

BRYN FÔN A'R BAND CALFARI

Sadwrn, 9 Mehefin
am 7.30
Mynediad: £10.00

Y Gerlan

Caren Brown
Cilwern, 14 Ffordd Gerlan,
Bethesda LL57 3ST
☎ 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Heledd Selwyn,
2 Pen Clwt, Gerlan LL57 3TJ
☎ 01248 208254 / 07880 702640
heleddselwyn@hotmail.com

Dyweddiad

Llongyfachiadau i Tomos Lewis a Jennifer Bone, Rallt Isaf ar eu dyweddiad.

Cartref newydd

Croeso i Lisa, Gwion a’r hogia sydd wedi symud i Tŷ Nain, Ffordd Gerlan. Dydyn nhw ddim wedi symud yn bell o Stryd y Ffynnon, ond gobeithiwn yn fawr y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207



01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.



GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Mae Leona ag Alex Holland wedi symud i’w cartref newydd yng Ngwernydd ar ôl cyfnod o fyw dramor yn Gibraltar. Mae Leona yn wreiddiol o Foelfre ag Alex o Landdona. Gobeithio y bydda nhw a’r cŵn bach, Tillie a Millie, yn hapus iawn yma.

Teulu arall sydd wedi symud atom i Gerlan yw Nia, Gareth a Deio. Maent wedi ymgartrefu yn Tantreflys ar ôl byw am gyfnod yn Llanfairfechan. Tydi Gerlan ddim yn newydd iddynt, gan iddynt fyw yn Stryd Goronwy ychydig flynyddoedd nôl.

Gadael Gerlan

Ar ôl byw yn Stryd y Ffynnon am flynyddoedd maith, mae Dic a Rhiannon Hughes wedi symud i’w cartref yn Stryd yr Orsaf. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn y tŷ newydd “O’r Diwedd”!

Penblwydd Arbennig

Penblwydd hapus iawn i Huw Waen fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 65 ddechrau mis Mai. Tydi Huw yn bendant ddim yn edrych fel ei fod wedi cyrraedd oed ymddeol ond dwi’n siŵr y bydd gan Gwenno ddigon o bethau i’w gadw’n brysur a sicrhau nad yw o dan draed!

Bydd Mari Davies, Tŷ Dŵr, hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig. Pob hwyl iti ar dy ben-blwydd yn 21 Mari a mwynha’r dathlu lawr yng Nghaerdydd.

Penblwydd hapus arbennig iawn i Gilbert Bowen yn 80.

Salwch

‘Rydym yn gyrru ein cofion gorau at Glyn Ellis yng Nghiltrefnus sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar.

Mae Angela Davies, Rallt Isaf wedi bod yn yr ysbyty hefyd ond da ni’n falch iawn o glywed ei bod wedi dod adref erbyn hyn. Brysia wella Angela.

Swydd newydd

Llongyfarchiadau mawr i Amanda Davies Tŷ Dŵr sydd wedi ei phenodi i swydd newydd fel Rheolwr Gyfarwyddwr Cwmni Hamdden Gwynedd. Pob lwc iti Amanda.

Croeso i’r byd

Croeso mawr i Ena Hughes Morris i’r byd, merch fach i Lliwen ac Ieuan a chwaer fach newydd i Erin a Fflur. Mae nain a thaid Tan Garth, Jen a Richard, a’r teulu i gyd wedi mopio’n lân.

Cyfarfod neu barti?

Os am gynnal cyfarfod neu barti pen-blwydd, cofiwch fod y Caban ar gael i’w logi am bris rhesymol iawn. (£10 - £20). Os ydych eisiau mwy o wybodaeth cysylltwch â Caren ar 602509

Penblwydd Priodas

At Fai 8fed dathlodd Len a Megan Williams eu priodas blatinwm, neu i ni, saithdeg mlynedd o fywyd priodasol. Nid yn aml y cawn y fraint o rannu newyddion fel hyn yn Llais Ogwan. Maent wedi byw yn y Gerlan gan fagu tri o blant yma sef Gerallt, Dylan a Nerys. Mae Len yn ôl rwan yn ei gartref yn Ffordd Gerlan a Megan ym Mhlas Ogwen. Hoffa’r teulu eu llongyfarch ar yr achlysur a’r un yw ein dymuniadau ninnau.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Yng Nghefnfaes, ar fore Sadwrn, 28 Ebrill, cynhaliwyd ein bore coffi blynyddol pryd y cafwyd cefnogaeth ardderchog gan drigolion y Dyffryn. Cafwyd bore llwyddiannus iawn gydag elw o £806.00. Diolchodd y cadeirydd, Joe Hughes, i bawb am bob rhodd ariannol, gwobrau i’r raffl, nwyddau i’r bwrdd gwerthu, ac am y gefnogaeth y mae gwaith y Cyfeillion yn ei gael gan drigolion Dyffryn Ogwen.

Yn ein pwyllgor ym mis Ebrill penderfynwyd prynu nwyddau ac offer gwerth £53,087.13 i’r ysbyty. (gweler y manylion isod).

“Monitors” Pwysau Gwaed i Ward Gogarth	£3,340.00
Peiriannau Pwysau Gwaed i Ward Glyder	£2,970.00
“Cell Salvage” i’r Theatr	£22,000.00
Sganiwr y Bledren - (Clinig “Urology)	£8,856.00
Sganiwr y Bledren - (Urogynaecology)	£8,154.00
Peiriant Trilogy 202 E.D.	£7,767.13

Y gweithgaredd nesaf fydd Diwrnod Agored yng nghartref Eira a Joe, 29 Ffordd Ffrydlas, Bethesda, ar ddydd Llun, 25 Mehefin, o 9.00yb hyd at 9.00yh. Bydd Eira a Joe yn falch iawn o dderbyn unrhyw rodd ariannol neu nwyddau ar gyfer y diwrnod.

Dilynwch ni ar trydar

Ysgol Bodfeurig

Ymddiheuriad

Mae Llais Ogwan yn ymddiheuro i Ysgol Bodfeurig am y camgymeriad o osod eu hadroddiad o dan y penawd “Ysgol Llandygai” yn rhifyn Ebrill.

Cyngor Ysgol a’r Cyngor Eco

Fel y gwyddoch mae’r cyngor ysgol a’r cyngor eco acw yn weithgar iawn. Y mis yma maent wedi bod yn cydweithio ar brosiect cyffrous sef datblygu’r ardal tu allan i’r ysgol yn lle ar gyfer dysgu a mwynhau. Y cam cyntaf oedd i dacluso’r gerddi’r ysgol – gwahoddwyd rhieni a ffrindiau’r ysgol i’n helpu ac roeddem yn ffodus iawn i gael criw roddodd eu dydd Sadwrn i fyny i’n helpu. Erbyn hyn mae’r gerddi wedi tacluso’n fawr ac rydym yn barod i symud ymlaen i gam 2 o’r prosiect. Mae’r ddau gyngor bellach yn cydweithio ar lythyru busnesau lleol i ofyn am gyfraniadau tuag at yr ardal tu allan – prosiect cyffrous yn wir! Cadwch lygaid allan yn y Llais am y datblygiadau nesaf.



Criced

Yn ystod y tymor mae plant yr adran Iau yn mynd i fod yn gweithio’n galed ar eu sgiliau criced o dan arweiniad Sam o Cricket Wales. Mae sgiliau pawb yn datblygu’n barod ac rydym yn edrych ymlaen i chwarae gemau yn ystod tymor yr haf.

Cydweithio gyda Coleg Menai

Mae dosbarth Tryfan ac Ogwen wedi cael llu o brofiadau y mis yma wrth iddynt gydweithio a dysgu gyda criw o fyfyrwyr o Goleg Menai. Dechreuwyd gyda gweithgareddau tîm cyn symud ymlaen i gyfeiriannu. Yn ystod yr wythnosau nesaf byddent yn cael mynd i gerdded i Moelyci ac adeiladu lloches – gweithgareddau fydd



yn eu paratoi at deithiau o amgylch Cwm Idwal ac i fyny’r Wyddfa yn y misoedd nesaf. Diolch o galon i’r criw gweithgar am roi profiadau gwerthfawr i’r plant.

Gruff yr Oen

I barhau gyda gwaith dosbarth Idwal am y fferm, daeth ymwelydd arbennig i’w gweld sef Gruff yr oen llywath. Roedd pawb wedi gwirioni pan ddaeth i’r ysgol ac roedd cyfle i roi mwythia iddo a rhoi potel iddo – yn sicr mae ambell i ffermwr ymhlith y dosbarth fuasai wrth eu bodd yn gofalu am Gruff. Diolch Miss Emily a’r teulu am ddod a fo i’n gweld.



Ymweliad â Fferm y Foel

Fel rhan o’u gwaith thema bu dosbarth Idwal ar ymweliad â Fferm y Foel. Dyma’r hanes gan Nieve (yn ei geiriau ei hun!):
“Rydwi wedi bod ar ymweliad i fferm y Foel gwelais 1 mochyn fawr a chwech mochyn bach. Gwelais oen bach cefais bwydo wedyn gwelais gafr un or gafr yn trio neindio ar y giat. Wedyn gwelais ceffyl a cefais bwydo nw enw y ceffyl oedd Rosie a Tommy. Es is ar tractor i’r cae ac gweld mwy o ceffylau. Cefais cinio yn y haul dwi wedi cael brechdan ham 1 paced o crisps a yogort. Ar ol amser cinio cefais mynd i’r siop. Wedyn cefais mynd ar y cwod beic mae’n bwmp iawn os ti’n mynd ar y cwod beic. es i ar y clustog bownsio roedd yn hwyl ac yn boeth. Roeddwn i wedi blino ar y bws ar ffordd adra.”

Llais Ogwan
Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan

Copa
Siop Trin Gwallt a Harddwch
Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cyngori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal “cut throat”)

Modurdy Central
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
601031

Ysgol Dyffryn Ogwen

Ysgoloriaethau Prifysgol
Llongyfarchiadau i'r myfyrwyr canlynol o'r Chwched Dosbarth sydd wedi ennill ysgoloriaethau i'r Brifysgol -
Ysgoloriaeth John Hughes (£3000)
Prifysgol Bangor -Elen Wyn
Ysgoloriaeth William Salesbury (£5000)
Prifysgol Bangor -Elen Wyn
Ysgoloriaeth Berfformio Bangor (£500 y flwyddyn) - Elen Wyn
Ysgoloriaeth Teilyngdod (£2000) Prifysgol Bangor -Sophie Williams
Prifysgol Aberystwyth -Yn dilyn sefyll yr ysgoloriaeth mae Sophie Davies wedi cael cynnig diamod.



Sophie Davies a Sophie Williams

Cynllun Profi
Llongyfarchiadau i Stephanie Owen blwyddyn 12. Roedd hi yn rhan o grŵp sydd wedi ennill gwobr Cynllun Profi am eu syniad "Trechu Trosedd". Bydd y wobwr ariannol yn cael ei rhoi i elusen o'u dewis. Llongyfarchiadau hefyd ar ennill gwobr yn Seremoni Gwobrau Blynnyddol Trechu Trosedd yr Uchel Siryf.

Dewis Gyrfa
Cafodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 12 y cyfle i brofi bywyd mewn prifysgol drwy fynychu 'Diwrnod Cysgodi Myfyrwyr' ym Mhrifysgol Bangor. Ymwelwyd ag adrannau Gwyddorau Chwaraeon, Y Gyfraith a Nyrsio. Cawsant flas ar ddarlithoedd a chyfle i holi myfyrwyr am natur eu cyrsiau. Bydd hyn o gymorth iddynt benderfynu ar faes gyrfa yn y dyfodol.

Cyrsiau Coleg Menai
Derbyniodd sawl disgybl dystysgrifau gan brif diwtor cwrs City & Guilds Lefel 1 mewn Adeiladwaith, Mr Richard Daniels. Cyflwynwyd tystysgrifau i Aron Fôn Bullock, Reece Owen Davies, Caio Llyr Hughes, Ioan Rhys Williams a Tomos Jac Shone. Mae'r disgyblion wedi cwblhau cwrs dwy flynedd yng Ngholeg Menai.
Derbyniodd Tomos a Caio dystysgrifau am bresenoldeb rhagorol hefyd.
Yn glod mawr iddo ei hun a'r ysgol cyflwynwyd tystysgrif Dysgwr y Flwyddyn

i Caio Hughes. Bydd hyn yn sylfaen cadarn wrth i Caio ddechrau ei brentisiaeth gyda chwmni adeiladu Brenig Construction.
Cyflwynwyd tystysgrifau i fyfyrwyr cwrs Peirianeg Lefel 1 sef Cyle Elderkin, Danny Jones a Shay Williams. Derbyniodd Seamus Curran, Ioan Smith, Lloyd Wilberforce a Tristan Young dystysgrifau Peirianeg Modurol Lefel 1.
Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a phob lwc yn y dyfodol.



Caio Hughes yn derbyn ei dystysgrif am Ddysgwr y Flwyddyn.

Gweithdy Cwmni'r Frân Wen
Treuliodd blwyddyn 8 a llond llaw o ddisgyblion blwyddyn 7 ddiwrnod difyr yng nghwmni Elgan o Gwmni'r Frân Wen. Cynhaliwyd gweithdy i'r criw ar ôl iddynt fod yn gwylio'r ddrama 'Ŵy, Chips a Nain' yn ystod mis Mawrth. Bu'r disgyblion yn archwilio'r berthynas sydd ganddyn nhw gydag aelodau'r teulu yn ystod y gweithdy. Diolch i Elgan a chwmni'r Frân Wen am ddiwrnod difyr a buddiol.

Amdani
Mae'r ysgol wedi lansio rhaglen 'Amdani' i ddisgyblion blwyddyn 7. Bwriad y rhaglen yw datblygu sgiliau unigolion ym mhob agwedd o fywyd gan ganolbwyntio ar nodweddion Arweinyddiaeth, Blaengaredd, Cyfathrebu, Gwydnwch a Threfnu felly ABCGT fydd thema blwyddyn 7 o hyn ymlaen. Fe fydd y rhaglen yn parhau i flynyddoedd 8 a 9 gyda chyfle i'r disgyblion gael tystysgrifau am eu llwyddiannau, i'w cyflwyno iddynt mewn seremoni ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol.



Grace Wynne gyda Jess Kavanagh Williams

Daeth Jess Kavanagh Williams, o dîm rygbi merched Cymru, i siarad efo blwyddyn 7 i gyflwyno'r rhaglen a siarad am ei phrofiadau a'r nodweddion ABCGT oedd hi angen eu harddel er mwyn cyrraedd y brig ym maes rygbi; roedd wir yn ysbrydoliaeth i'r disgyblion fod yn gweithio at wireddu eu breuddwydion.

Prynhawn Cyflogwyr blwyddyn 10
Roedd hi'n brynhawn llwyddiannus i flwyddyn 10 gyda 4 o gyflogwyr lleol wedi mynychu i drafod cyfleoedd/ gyrfaoedd sydd ar gael yn y diwydiannau gwahanol . Rydym yn ddiolchgar iawn i Horizon, Syniadau Mawr Cymru, Pontio ac Alun Griffiths (Peirianwyr Sifil ac Adeiladu) am ymuno gyda ni am y prynhawn. Roedd y disgyblion wedi mwynhau yn arw.

Llysgenhadon
Diolch i lysgenhadon ifanc Dyffryn Ogwen sef Erin Davies, Huw Davies, Sion Davies, Alaw Gilford, Ela Oliver, Efa Williams a Ryan Williams, ac am gefnogi Tîm Chwaraeon am Oes i hyfforddi. Bu'r disgyblion yn arwain a rheoli dros ddau gant o ddisgyblion cynradd mewn gŵyl rygbi ysgolion cynradd yng Nghaernarfon. Roedd eu cymorth, agwedd a brwdfrydedd yn arbennig ac yn adlewyrchiad da o'r ysgol.



Ryan Williams yn hyfforddi disgybl ysgol gynradd

Athletau Arfon
Mae nifer o ddisgyblion wedi perfformio'n wych yn ystod atletau Arfon yn Nhreborth ac wedi ennill lle yn nhîm Arfon ar gyfer atletau Eryri.
Huw Davies - 200m a disgen
Jack Hipkiss Hughes - 300m a naid driphlyg
Natalie Owen - pwysau a disgen
Ela Oliver - 300m
Erin Davies - naid hir
Erin George - naid uchel, clwydi a naid hir
Huw Davies wedi torri record taflu'r ddisgen (33.10m), Natalie Owen wedi torri record taflu'r pwysau (8.32m) ac Ela Oliver

wedi torri record 300 meter (47.6 eiliad).

Criced

Yn dilyn llwyddiant tîm criced merched dan 15 yn rowndiau Gogledd Cymru yn ddiweddar teithiodd y tîm i Bolton i rowndiau Gogledd Lloegr a Gogledd Cymru. Roedd rhai aelodau o'r tîm yma wedi cael profiad o rowndiau cynderfynol Prydain llynedd ac yn ymwybodol bod y safon yn uchel iawn. Er hyn, roedd gennym garfan gref o fowlwyr a batwyr.

Cawsom westy dros nos drws nesaf i "Bolton Arena" sef lleoliad y twrnament a chafwyd amser yn ymlacio yn y bowlïo deg cyn cael noson dda o gwsg yn barod am y gemau drannoeth.

Hannah Jones ac Erin Davies oedd capten ac is-gapten y tîm ac roeddynt wedi sicrhau bod y tîm yn ymwybodol o'r rheolau llawn er mwyn penderfynu ar y tactegau gorau! Roedd Dyffryn Ogwen yn cynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth ac roeddem mewn grŵp efo Durham, Yorkshire a Cheshire - tair ardal gryf ac adnabyddus ym myd Criced.

Doedd y gêm gyntaf yn erbyn Cheshire ddim yn grêt a cholli o 40 rhediad wnaethom wrth i ni geisio dygymod â bowlïo cyflym tair aelod o dîm Cheshire oedd yn chwarae i'r sir hefyd! Roedd y tîm yn hyderus wrth wynebu Durham yn yr ail gêm. Ond, gwnaethpwyd llanast llwyr o'r batïo yn y 4 pelawd gyntaf (gyda 5 o'r genod yn rhedeg ei gilydd allan drwy ddiffyg cyfathrebu!)

Er hyn, brwydrodd y pedair batiwr olaf i sgorio cyfanswm o 96 rhediad gyda rhedeg a tharo pwerus. Gorffennodd y gêm gyda Dyffryn Ogwen dim ond 9 rhediad tu ôl i Durham - rhwystredig iawn i feddwl bod 3 "dim pêl" neu "pêl lydan" yn gyfwerth â 9 rhediad! Roedd y gêm yna i ni ennill - ond boddi ar y lan oedd ein hanes unwaith eto!

Roedd y gêm olaf yn mynd i fod yn dipyn o her (Yorkshire) - tîm oedd wedi ennill 22 o gemau er mwyn cyrraedd y rownd yma! Roedd y tîm yma eisoes wedi curo Cheshire a Durham yn y grŵp ac wedi rhoi 50 o rediadau ar sgôr Durham. Brwydrodd y chwaraewyr yn y gêm yma ac yn sicr roedd y cyfathrebu yn llawer gwell a'r bowlwyr wedi codi eu gêm hefyd. Er i ni golli, dim ond 20 rhediad oedd y gwahaniaeth. Roedd un o chwaraewyr tîm Yorkshire yn y tîm cenedlaethol a gyda hyn yn batïo yn gryf ac yn bowlïo'n arbennig yn erbyn genod y Dyffryn.

Wrth adlewyrchu ar y twrnament gallwn ddweud bod tîm Dyffryn Ogwen wedi rhoi gemau da i'r timau eraill ac yn sicr roeddem wedi chwarae fel un gyda phawb yn helpu ei gilydd. Llongyfarchiadau fil i'r tîm am gyrraedd y rowndiau cyn-derfynol, blwyddyn nesa.....efallai?!

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

Eglwys St. Ann a St. Mair

Suliau 1af & 3ydd: Boreol Weddi
2ail & 4ydd: Cymun Bendigaid

Erbyn hyn mae'r gwasanaethau ar y Sul yn dechrau am 9.30 y.b. Estynnwn croeso cynnes i bawb ymuno â ni ar foreau Sul. Os oes unrhyw un yn dymuno trefnu unrhyw wasanaeth arall yn yr eglwys

cysylltwch a'r Parchedig John Matthews (Bangor 364991) neu'r Parchedig Christina McCrea (Bangor 372249).

Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyd o bryd, a dymunwn wellhad buan i chwi oll.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at blant Ysgol Bodfeurig sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanelwedd ar ddiwedd y mis. Mwynhewch!

Aelod o Fand Jazz Buddugol

Llongyfarchiadau i Ifan Rhys Cooke, Cwm Hyfryd, Mynydd Llandygái, oedd yn aelod o Band Jazz Ysgol Tryfan, Bangor a enillodd y brif wob'r i Fandiau Ieuentid Cymru yn Abertawe yn ystod Mis Ebrill.

Teyrnged i Marion Iwan (o Fynydd Llandygái, gynt)

Sut mae crynhoi nodweddion person mor unigryw a Marion? Person oedd mor llawn bywyd, mor llawn hwyl? Mae'n rhaid i mi gyfaddef mai dyma un o'r pethau anoddaf dwi erioed wedi ei wynebu, cyflwyno teyrnged i Marion - ffrind oedd, ac a fydd yn annwyl iawn i mi. Wrth feddwl amdani mae'n siwr fod gan bob un ohonom oedd yn ei hadnabod atgofion melys, achos roedd ganddi ddawn i godi ysbryd pawb roedd hi'n dod i gysylltiad â hwy. Byddech wastad yn teimlo'n well ar ôl bod yn ei chwmmi.

Mae fy nghyfeillgarwch efo Marion yn mynd yn ôl i ddyddiau coleg. Canol y chwedegau oedd hi a Helen a fi'n methu aros i adael Ysgol y Merched ym Mangor ac anelu am y coleg hyfforddi athrawon yng Nghaerdydd. Yn ystod gweithgareddau croeso'r wythnos gyntaf dyma ddod ar draws merch dalsyth, drawiadol efo gwallt du a llygaid glas disglair. A dyna ddechrau ar gyfeillgarwch a barodd am dros hanner canrif.

Ond am ffrind! Gallech yn ddieithriad ddibynnu ar gefnogaeth Marion pan fyddai pethau'n mynd o chwith. Dros y blynyddoedd dwi, fel sawl un arall mi wn, wedi colli cyfrif ar sawl gwaith y bu iddi ddod i gynnig cymorth pan oeddwn ei wir angen. Roedd ffrindiau'n bwysig ganddi a dangosai ddiddordeb mawr yn hynt a helynt bob un ohonynt ac ym mhlant ei ffrindiau. Roedd caredigrwydd yn rhan annatod o'i natur. Mor ffeind y bu efo'i mam, yn rhoi bron pob dydd Sadwrn i fynd a hi allan yma ac acw, a hynny am flynyddoedd.

Lle bynnag y byddai Marion, byddai bwrllwm a chwerthin. Roedd ganddi synnwyr digrifwch heb ei ail a byddai

wrth ei bodd yn adrodd am droeon trwstan ei hun ac eraill. Roedd yn berson egniol iawn ac yn medru dal i fynd pan fyddai'r gweddill ohonom ni'n fflagio.

Er cymaint yr hwyl a'r bwrllwm o gwmpas Marion roedd ochr mwy difrifol iddi. Roedd ei rôl fel mam i Llïon, Elliw a Telor yn holl bwysig iddi ac roedd hi'n gwirioni ar ei phedwar wyr bach Morgan, Louis, Eban a Mabon. Yn ystod ei gyrfa, bu'n athrawes ymroddgar a chydwybodol a phob unigolyn yn bwysig ganddi. Roedd yn uchel ei pharch gan bawb yn yr amrywiol asiantaethau yr oedd yn ymwneud a hwy.

Nos Lun Pasg a'r ddwy ohonom yn cyfarfod yn Galeri ar gyfer sioe cabaret Lowri Ann Richards a Dylan Cernyw. Cawsom sioe werth chweil. Roedd sbrïng yn ein camau wrth i ni adael i fynd am adra a hithau'n tynnu am unarddeg. 'Welai di nos Wener' meddwn gan ein bod ni, ynghyd â Iona a Mair, yn mynd i dy Elsbeth am swper. Marion dynnodd ei char allan gyntaf a finnau'n dilyn a stopio tu ol iddi wrth geg lôn y maes parcio, Marion yn mynd i'r chwith a finnau i'r dde am y twnel. Dyma hi'n codi llaw a finna fflachio'r golau, fawr o feddwl mai hwn fyddai'r ffarwel olaf.

Roedd Marion yn bersonoliaeth fawr. Bywiodd ei bywyd yn y lôn gyflym a'n gadael yn yr un modd. Diolch am y fraint o gael ei hadnabod, am gael rhannu'r llon a'r lleddf gyda hi ac am yr oriau difyr yn ei chwmmi. Rydan ni wedi cael andros o hwyl dros y blynyddoedd. Fydd bywyd byth r'un fath eto ac anodd fydd llenwi'r gwacter mawr mae'n adael ar ei h'ôl - oherwydd 'Hi oedd fy ffrind.'

Rhiain Gwyn
Ebrill 2018

Ysgol Llanllechid

Yr Ysgwrn, Llyn Celyn a Byd Mari Jones

Yn ddiweddar, bu disgyblion blwyddyn pedwar ar drip bythgofiadwy i'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn a chael y fraint o gyfarfod Gerald, cyn symud ymlaen i Fyd Mari Jones yn y Bala yn y prynhawn. Roedd y tywydd o'n plaid, oedd yn gryn newid, ar ôl yr holl eira mawr a'r rhew! Cafwyd pleser pur yn edrych allan drwy ffenest y bws ar y ffordd i Sir Feirionnydd a sylwi ar brydferthwch y wlad a'r coed yn dechrau deilio, cyn cyrraedd y llecyn rhyfeddol hwn yng nghwmwd Prysor. Bu cyfle i'r disgyblion adrodd rhai o englynion Hedd Wyn megis:

*Ei aberth nid a heibio, - ei wyneb
Annwyl nid a'n ango
Er i'r Almaen ystaenio
Ei dwrn dur yn ei waed o*

A hefyd un o'n hoff gerddi:

*Dim ond lleuad borffor
Ar fin y mynydd llwm
A swn hen afon Prysor
Yn canu yn y cwm.*

Roedd hi'n wefreiddiol cael y cyfle i ddysgu am ddoniau'r bardd a hanes y gadair ddu. Dysgwyd hefyd am elfennau o erchyllderau'r cyfnod arwydus hwn yn ein hanes; cyfnod a gafodd effaith andwyol ar ein teuluoedd, ein hiaith a'n diwylliant a'r colledion trwm drwyddi draw. Ac, fe'n sobrwyd wrth ddysgu am golledion Trawsfynydd, a phentrefi tebyg yng nghefn gwlad Cymru.

Ymlaen â'r cart, heibio i Lyn Celyn, a dyma i chi wers hanes arall sy'n holl bwysig ei bod ar gôf a chadw ein ieuenctid. Anodd credu....boddi cwm cyfan. Cofiwn fod Mr Walter Williams wedi ei eni yn y cwm hwn ac mae Mr Williams bob amser yn barod i'n helpu fel ysgol i ateb cwestiynau'r disgyblion ar y digwyddiad ac wedi dysgu llawer ffaith ddiddorol i ni. Oeddech chi'n gwybod mai ar Awst 1af, 1957 y pasiodd y senedd yn Llundain fesur i ganiatau boddi Cwm Tryweryn? Yn y cyfnod hwn



trefnwyd rali “ Cadw Tryweryn” a gorymdeithiodd dros 4,000 o bobl drwy strydoedd Y Bala i ddangos eu gwrthwynebiad. Aeth cymuned gyfan dan y don gan gynnwys deuddeg fferm, ysgol, swyddfa bost, capel a'r fynwent. A'r gost ariannol yn £20 miliwn. A'r gost i'r ardal, wrth gwrs, yn anfesuradwy. Ydy'r rhigwm bach yma yn canu cloch?

*Ffarwel i blwyf Llanycil
A'r Bala'n dirion deg
Ffarwel fy annwyl gariad
Nid wyf yn enwi neb
Rwy'n mynd i wlad y Saeson
A'm calon fel y drwm
I ganu o flaen y delyn
Ac i ddawnsio o flaen y drwm.*

Llanycil oedd y gyrchfan a Byd Mari Jones oedd y lleoliad. Dysgwyd am ymdrech lew Mari Jones i gynilo ei harian prin a theithio o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala i brynu Beibl gan Thomas Charles. Roedd cwisiau, gemau cyfrifadurol, ffilmiau a gweithgareddau amrywiol yno i ddiddanu'r disgyblion a phob un wrth eu boddau. Diwrnod arbennig a fydd yn aros yn y cof am byth, gobeithio.

Ras Moel Wnion a Rasys Plant
Roedd diwrnod Ras Moel Wnion yn llwyddiant ysgubol eto eleni pan ddaeth 52 o redwyr i Ysgol Llanllechid o ardal eang a phob un ohonynt wedi

Beicio i'r Ysgol
144! Dyma faint o blant deithiodd i'r ysgol ar feic neu sgwter ar ddydd Iau, Ebrill 26ain! Pam meddai chi? Bu'r ysgol yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth y Big Pedal am y tro cyntaf eleni, ymgyrch sy'n ceisio hyrwyddo teithiau iach ac egnïol. Roedd aelodau o'r Grŵp Gwyrdd yn cofnodi'r sawl oedd yn teithio i'r ysgol ar feic neu sgwter yn ddyddiol er mwyn cymharu gydag ysgolion eraill yn y Deyrnas Unedig. Llongyfarchiadau i ddosbarth Mrs Wilson, pencampwyr yr ysgol! Gan ein bod yn Ysgol Iach ac yn Ysgol Werdd, roedd y gystadleuaeth yn gyfle arbennig i atgoffa'r disgyblion a'r rhieni am

bwysigrwydd cadw'n heini a'r effaith bositif mae teithiau o'r fath yn ei gael ar yr amgylchedd. Yn sgil hyn, gwahoddwyd yr ysgol i ymddangos ar raglen FFIT Cymru, gyda'r cyflwynydd S4C enwog, Lisa Gwilym yn ymuno â'r plant mewn sesiynau datblygu sgiliau beicio a sgwtera o dan arweiniad Gwen Thomas, swyddog teithiau iach Sustrans. Diolch o galon i bawb am gefnogi'r ymgyrch gan obeithio y bydd y plant yn parhau i feicio neu sgwtera i'r ysgol! Diolch hefyd i Gwmni Da am ddod draw i'n hysgol er mwyn lledaenu'r negeseuon pwysig o ran iechyd a ffitrwydd! Diolch hefyd i Mr Stephen Jones am gydgorio'r cyfan.

llwyddo i redeg i ben y Foel. Yn ogystal, bu'r disgyblion yn rhedeg ar gau'r ysgol gan ddilyn cyfarwyddiadau Mr Stephen Jones. Oedd, roedd hi'n ddiwrnod bendigedig, awyr las, awyrgylch braf a phopeth yn rhedeg fel cloc. Diolch arbennig i Dr Ross Robert (tad Evie a Harri) am ei waith caled yn trefnu ac i'r pwyllgor am yr holl waith da. Yn wir, diolch i holl aelodau'r Gymdeithas Rhieni /Athrawon a phawb a weithiodd yn galed yng nghegin yr ysgol,

yn enwedig Anti Gillian, oedd newydd ddod allan o'r ysbty. Roedd yr holl gacenau a'r cawl cennin yn hynod flasus, a'r rhedwyr a phawb arall yn llowcio'r cyfan! Braf iawn gweld yr ysgol yn cydweithio mor effeithiol hefo aelodau'r gymuned fel hyn a chyfraniad rhieni yn allweddol i'n llwyddiant. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

Chwarel Pantdreiniog, Bethesda
Bu dosbarthiadau Bl.3 a 4 yn ymchwilio drwy astudio hen

(Y mis hwn cyflwynwn gyfres newydd o erthyglau wedi eu seilio ar atgofion Mr Wyn Thomas, brodor o'r Gerlan yn wreiddiol, ond sydd bellach wedi setlo yn ninas Abertawe. Fe aned Wyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac mae ei atgofion cynnar yn ymwneud â thyfu i fyny yn Nyffryn Ogwen yn y cyfnod hwnnw. Mae'n dwyn i gof ddigwyddiadau a chymeriadau yn ardal Bethesda sy'n rhan o orffennol y fro bellach, ond bydd llawer o ddarllenwyr y Llais yn siŵr o fod yn cofio nifer ohonyn nhw. Gyda chaniatâd Mr Thomas, cynhwysodd y golygydd rai delweddu o'r we ac o fannau eraill i ychwanegu at yr hanes.)

'Plentyn y Rhyfel'

gan Wyn Thomas (golygwyd gan Derfel Roberts)

Un o fanteision mawr tyfu i fyny mewn cymuned fel Bethesda ydi'r cyfle a gewch i rannu profiadau, daliadau a hanes cyd-drigolion a gwahanol bobl o amrywiol genedlaethau. Yn fy achos i, cefais gyfle i drafod effaith y streic fawr, yn ogystal â diwygiad crefyddol 1904/05, a hefyd Ryfel Mawr 1914-18. Roeddwn yn rhy ifanc i sylweddoli cymaint oedd dinistr y rhyfel hwnnw a'r effaith a gafodd ar nifer fawr o

deuluoedd Bethesda ac yn wir ar bob cymuned arall trwy Brydain. Yn raddol fodd bynnag, fe ddeuthum i sylweddoli maint yr effeithiau hynny trwy brofiadau pobl fel fy ewythr Tom, brawd hynaf fy nhad. Yncl Twm oedd tad Doris Jones sydd, wrth i mi ysgrifennu hyn o eiriau, yn parhau i fyw ym Maes Coetmor, Bethesda. Bachgen oedd Yncl Twm pan aeth i'r rhyfel a'i swydd oedd canu'r biwgl (fe'i gelwid yn 'bugle boy'). Pan ddaeth

gartref, fe aeth ymlaen i fod yn fiwglwr yn Chwarel y Penrhyn ble canai'r corn i rybuddio pawb am y ffrwydradau rheolaidd ar y ponciau, ac i ddynodi amser mynd adref. Mae'r 'swper chwarel' ym Methesda yn disgrifio'r cinio wedi i'r gwaith ddod i ben ond defnyddid y term, 'swper caniad', hefyd. Roeddwn yn ymhyfrydu yn newrder Yncl Twm ac yn ymfalchïo yn fy mherthynas gyda ffrind a chydweithiwr i fy nhad, sef Dic, o Stryd yr Allt

Uchaf. Roeddwn yn mynd i'w dŷ o'n aml ac yn rhyfeddu at ei straeon. Fel gwobr am wrando mor astud, fe roddodd i mi ddwy het a gludodd adref o'r Rhyfel Mawr. Helmed Haul neu 'Pith helmet' oedd un, a het ledr Almaenig oedd y llall, gyda phigyn pres hir ar ei chorun. Trysorais y rhain am flynyddoedd lawer. Hanesion fel y rhain a llyfrau pobl o'r ardal fel Ernest Roberts a Buller Thomas a ddaeth â'r Rhyfel Byd Cyntaf yn fyw i mi.

Milwr o gyfnod imperialaidd Prydain yn gwisgo helmed haul (pith helmet) ar ei ben. Dyma'r math o helmed a gafodd Wyn yn anrheg.

Ond gan i mi gael fy ngeni ar ddechrau 1941, roedd dylanwad yr Ail Ryfel Byd yn llawer trymach arnaf. Y term a ddefnyddiwyd am y plant a aned yn ystod y gyflafan rhwng 1939 a 1945 oedd 'war babies' neu blant y rhyfel. Roedd y rhyfel hwnnw'n effeithio ar fy magwraeth ac mae wedi gadael ei ôl ar lawer o'm syniadau a'm hagweddu byth ers y cyfnod hwnnw ac wedi hynny.

Un o'r pethau cyntaf oedd dylanwad y radio oherwydd dyma

oedd y ddolen gyswllt rhwng pobl Prydain â'i gilydd. Trwy gyfrwng y radio, roeddem yn clywed y newyddion am ddigwyddiadau'r rhyfel, ac am lwyddiannau a methiannau ymgyrchoedd y lluoedd arfog. Dyna sut reddden ni'n cael clywed am effaith y bomio, yn ogystal â chael gwybod bod 'Abertawe'n fflam'. Un o'm tasgau cynnar oedd cario batri gwydr trwm y radio i lawr i siop W. H. Lewis ym Methesda a'i newid am un wedi ei wefru er mwyn cael wythnos arall o wrando. Rhaid oedd bod yn berffaith dawel pan oedd sŵn cloc Big Ben yn taro naw o'r gloch bob nos. Dyna pryd 'roedd Alvar Lidell, neu ddarllenwyr newyddion eraill, yn rhoi gwybod i ni am sut 'roedd y rhyfel yn mynd. Yr adeg honno hefyd oedd y cyfnod pan ddaeth termau fel y 'blitz' yn rhan o'm geirfa a dyna pryd y deuthum i wybod am lefydd ymhell y tu hwnt i'r Gerlan gan gynnwys llefydd fel Tobruk, Berlin, Rhufain, Pearl Harbour, Burma, a Hiroshima. Daeth enwogion o'r byd milwrol yn rhan o'm bywyd hefyd a deuthum yn gyfarwydd ag enwau fel Rommel,





Patton, Eisenhower, Montgomery ac eraill. Roeddwn yn fwy cyfarwydd â'r bobl a'r llefydd hynny nag oeddwn am drefi Cymru ac arweinwyr ein gwlad ein hunain.

Roedd y Prif Weinidog, Winston Churchill, yn sylweddoli grym neu bŵer y radio ac yn ei ddefnyddio i dynnu'r genedl ynghyd ac i lefaru rhai o'i areithiau mawr. Roedd fy nhad, ac undebwyr llafur eraill yn barod i wrando arno fo, ond roedd yna hefyd atgasedd llwyr at yr arch-Geidwadwr. Wedi'r cyfan, hwn oedd y dyn oedd wedi dilorni glowyr Cymru ac wedi anfon milwyr i chwalu eu protest. Roedd peth felly'n canu cloch chwerw ei sain ac yn dwyn atgofion drigolion Dyffryn Ogwen am ddigwyddiadau'r Streic Fawr.

Gan fod Churchill yn llefaru geiriau yn llawn y sain 'sh', fel yn:

'Never in the field of human conflict wash sho much owed by sho many to sho few',
ymateb fy nhad oedd:
'Gwrandda arno fo, mae'r diawl wedi meddwi eto!'

Radio o'r 1940au
Daeth yr un agwedd yn amlwg ychydig wedi'r rhyfel pan oeddwn yn mynychu'r capel dair gwaith y Sul ac yn mynd i'r Band of Hope ar nos Fawrth a'r seiat, neu'r cwrdd gweddi ar nos Iau. Dw i'n cofio un hen fachgen yn mynd ar ei luniau ac yn gweddïo:
'O Dduw, diolch iti am gael gwared ar Hitler ac ar Mussolini, a gweddiwn arnat i gael gwared ar Churchill hefyd cyn bo hir.'

Daeth y gweinidog â'r weddi honno â'r cyfarfod i ben yn syth.

Fe sylweddolodd y llywodraeth bwysigrwydd y radio nid yn unig fel arf

newyddion a phropaganda ond fel dull o gadw'r bobl yn hapus trwy ddarparu adloniant a rhaglenni ysgafn. Roedd stiwdios y BBC yn Llundain mewn perygl o gael eu dinistrio gan roi bywydau sêr y radio mewn perygl. Felly, fe benderfynwyd symud yr adran adloniant ysgafn i stiwdio Neuadd y Penrhyn, nid nepell o'r cloc ym Mangor. Un o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd oedd ITMA (*It's That Man Again*), rhaglen gomedi dan arweiniad y comediwr Tommy Handley. Bu Handley a nifer o sêr comedi'r BBC yn darlledu o Fangor am gyfnod hir yn ystod y rhyfel, ac am amser roedd llofnodion y sêr yma i'w gweld ar liain bwrdd yng ngwesty'r Belle Vue ym Mangor Uchaf. Ysyaeth, mae'r lle wedi newid yn llwyr erbyn hyn ac aeth y lliain i ebargofiant. Bechod!

I barhau.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Cydymdeimlad
Trist oedd clywed am farwolaeth Ann Whelan o Eithinog, Bangor, a chydymdeimlwn yn ddwys gyda'i rhieni, Peter a Gill Bullen o'r pentref a chyda Chris ei gŵr, ei phlant a'r teulu yn eu colled. Roedd Ann wedi dioddef cyfnod hir o waeledd. Cydymdeimlwn hefyd â theulu Jennie May (Mai) Lewis o Fangor.

Diwrnod Rhodd
Bydd diwrnod ein nawddsant St Tegai yn cael ei ddathlu ar Fehefin 5ed eto eleni. Mae'r Sul blaenorol yn gyfle i aelodau'r eglwys ac i ffrindiau sydd gyda chysylltiadau personol â phentref Llandygai gynnig rhodd ariannol tuag at gostau cynyddol rhedeg yr eglwys, cynnal y fynwent ac atgyweirio ein hadeilad hanesyddol. Derbynir yn ddiolchgar unrhyw roddion yn daladwy i "Sant Tegai, Llandygai" trwy law y Ficer, y Parch John Matthews, Y Ficerdy Pentir, Bangor neu yng nghasgliadau misoedd Mai a Mehefin

Garddwest y Tair Eglwys
Bydd y Garddwest boblogaidd yma ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 14eg 2018 yn Ficerdy Pentir. Mae digon o amser gennych i gasglu cyfraniadau i stondinau amrywiol – anrhegion a nwyddau bychain newydd yn dderbyniol iawn! Mae Nerys, Ann a Rhian yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad.

Gwasanaethau Sant Tegai
Y drefn arferol yn y mis yw:
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Eich barn am Gynllun Hybu'r Gymraeg Cyngor Gwynedd ar gyfer 2018-2023

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi dogfen strategol sydd yn dangos sut mae'n bwriadu mynd ati i hybu defnydd o'r Gymraeg a chynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr ar draws y sir.

Mae'r Cyngor felly yn cyhoeddi 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023', fel drafft ymgynghorol, ac yn gwahodd trigolion a sefydliadau i fynegi barn a chynnig sylwadau ar ei chynnwys.

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i glywed barn trigolion y sir a chyrff eraill ar y cynllun hybu a'r blaenoriaethau y dylid eu gosod ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith ar draws y sir dros y pum mlynedd nesaf.

Meddai Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn: "Mae gan y Cyngor hanes anrhydeddus o hybu a gwarchod yr iaith fel cyfrwng cyfathrebu naturiol ei wasanaethau, ac o weithio i sicrhau fod holl drigolion y sir yn cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

"Fel rhan o'r gwaith yma, rydym wedi paratoi Cynllun ar gyfer y cyfnod 2018 hyd 2023 sy'n nodi rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd, i gynnal ei statws fel cadarnle'r Gymraeg, ac yn nodi blaenoriaethau mewn sawl maes. Mae hefyd yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau sydd wedi eu nodi yn rhai o gynlluniau eraill y Cyngor, megis y Strategaeth Iaith Uwchradd a'r Cynllun Llesiant.

"Mae'r Cynllun drafft yn cyfeirio at y meysydd hynny lle mae gan y Cyngor ddylanwad drostynt a lle yr ydym o'r farn y gellir gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y tymor byr, yn ogystal a gosod sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol. Mae'r pwyslais yn gryf ar ganfod cyfleoedd i gynyddu defnydd trigolion Gwynedd o'r Gymraeg ym mhob

rhan o'u bywydau, ac ar gael y bobl hynny sydd eisoes â gallu yn y Gymraeg i deimlo balchder a hyder yn yr iaith.

"Rydym yn ymwybodol iawn na fydd posib i'r Cyngor weithredu ar ei ben ei hun i wireddu rhai o'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun, ac felly bydd angen parhau i gydweithio gyda sawl partner a chorff allanol er mwyn cyrraedd y nod.

"Byddem yn annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes i fwrw golwg ar y Cynllun drafft ac i gyflwyno sylwadau. Bydd yr holl sylwadau y cael eu hystyried yn ofalus wrth i ni ystyried y ffordd ymlaen a chytuno ar gynllun terfynol."

Bydd y cyfnod ymgynghori ar Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd yn parhau nes 5 Mehefin 2018. Gallwch ymateb mewn sawl ffordd:

- Drwy ateb yr holiadur ar lein: www.gwynedd.llyw.cymru/CynllunHybu
- Drwy anfon ymatebion dros e-bost at: cydraddoldebaciaith@gwynedd.llyw.cymru
- Anfon ymatebion papur at: Ymgynghoriad Cynllun Hybu, Uned Iaith, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.



Ganrif i fis hwn

ER COF

GRIFFITH DAVID EDWARDS

Lance Serjeant 37335

14th Bn.,

Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig

A fu farw 2 - 5 - 1918

Yn 25 ml. Oed

Mab William a Mary Edwards,

1, Grisiau Cochion, Bethesda.

Arysgrif ar ei fedd

'Duty Nobly Done'

Etaples Military Cemetery. Ffrainc

OWEN WILLIAMS

milwr cyffredin 204089

16th Bn.,

Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig

A fu farw 3 - 5 - 1918

Yn 33 ml. oed

Mab Mary Williams,

34 Tan-y-Bwlch Rd. Llanllechid

Arysgrif ar ei fedd

'Gone but not Forgotten'

St. Sever Cemetery Extension, Rouen.

Ffrainc

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

Y Dyddiadur toriadau

Detholiad gan Derfel Roberts

Rhywsut, rhywfodd, rhywbryd, daeth i'm meddiant ddyddiadur bychan yn dyddio o'r flwyddyn 1933 ac yn mesur tua 10cm wrth 6cm. Eiddo i ŵr o'r enw John Owen o Garnedd Wen, Llanfairpwll oedd y dyddiadur yn wreiddiol, ac mae'n llawn o doriadau o bapurau Cymraeg ac ambell i un Saesneg y cyfnod. Os oes rhywun yn darllen y geiriau hyn ac yn gwybod o ba le daeth y dyddiadur mae croeso iddynt ei gael yn ôl dim ond iddynt gysylltu â mi.

Mae'r dyddiadur neu'r llyfryn toriadau bychan yn nodi pethau fel hynt y gymdeithas ddrama leol gyda Cynan yn cymryd rhan amlwg mewn cynnal dosbarthiadau drama o dan nawdd y Brifysgol. Mae un adroddiad yn sôn am gyflwyno noson o ddramâu yn Llanfair, Llannerchymedd a Niwbwrch ac yn un o'r tudalennau cyntaf mae adroddiad am dair noson o ddramâu gyda chwmmi Llannerchymedd yn perfformio drama o'r enw 'Canwyllbrenau'r Esgob,' drama wedi ei seilio ar Les Misérables gan Victor Hugo o Ffrainc; Cwmni Niwbwrch yn perfformio

drama o'r enw 'Unigrwydd'* gan awdur o Loegr a chwmmi Llanfair yn perfformio 'Tri Chryfion Byd,' anterliwt o waith Twm o'r Nant. Nodir mai dyma'r tro cyntaf i'r hen anterliwt gael ei pherfformio yn y Gogledd ers amser Twm ei hun.

Mae'r llyfryn bach hefyd yn cynnwys, ymhlith toreth o bethau eraill, benillion ac englynion o amrywiol ansawdd, a dyma i chi un sy'n debyg o fod yn llawysgrifen y perchennog ei hun.

Codais, ymolchais yn llon - cyn naw awr

Ciniawa'n Nghaer Lleon,

Pryd Gosber yn y Werddon,

Prydnawn wrth dân mawn ym Môn

Robin Ddu Ddewin

600 o flynyddau'n ôl.

(* Er bod cyfeiriad at ryw 'Brighthouse' mewn cromfachau ni allwn ddarganfod enw dramodydd o'r un enw ar y we ond mae digon o gyfeiriadau at y dref o'r enw hwnnw yn Swydd Efrog.)

I'w barhau

Cronfa £500,000 i adfywio adeiladau canol Bethesda a Phenygroes

Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu cronfa gwerth £500,000 ar gyfer adnewyddu adeiladau sydd wedi lleoli yng nghanol Bethesda a Phenygroes.

Daw hyn ar ôl cais llwyddiannus gan y Cyngor am arian o Gronfa Benthyciadau Canol Trefi Lleodedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn ymestyn y gronfa a sefydlwyd ar gyfer canol tref Caernarfon yn Nhachwedd 2015 a chanol Dinas Bangor ym Mawrth 2017. Mae nifer o berchnogion adeiladau eisoes wedi gwneud y mwyaf o'r benthyciadau i wella cyflwr eiddo yn yr ardaloedd hynny.


Fel rhan o'r cynllun ym Methesda a Phenygroes, bydd modd i berchnogion gyflwyno cais o'r gronfa fenthyciadau er mwyn cwblhau gwelliannau i eiddo. Gellir defnyddio'r arian ar gyfer perchnogaeth barhaol, at ddibenion gwerthu, i'w osod, neu er mwyn gallu gwneud defnydd o safle gwag. Gall gwelliannau gynnwys gwneud eiddo preswyl yn ddiogel, cynnes neu eu diogelu.

Dywedodd y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi Cyngor Gwynedd:

“Rydym yn hynod falch ein bod wedi llwyddo i sicrhau arian ar gyfer sefydlu'r gronfa fenthyciadau ar gyfer Bethesda a Phenygroes. Fel Cyngor, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid dros y blynyddoedd i sicrhau adfywiad economaidd, a bydd y benthyciadau yma yn sicr o gael effaith bositif iawn, ac yn rhoi cyfle i fusnesau a phreswylwyr i wella ac adnewyddu adeiladau yng nghanol Penygroes a Bethesda.

Am ragor o wybodaeth am y gronfa, cysylltwch ag Uned Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd ar 01286 679231, e-bostiwrch busnes@gwynedd.llyw.cymru neu ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/cymorthariannol os am ragor o fanylion.


Apel am Wirfoddolwyr gan Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru, BANGOR



Oes gennych chi ychydig o oriau rhydd yn ystod yr wythnos? Hoffech chi wirfoddoli er budd pobl a nam ar eu golwg?

Mae Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor yn chwilio am wirfoddolwyr i ddarllen Llais Ogwan, ac erthyglau eraill Cymraeg fel y rhai a geir yn Golwg a'r Herald Gymraeg i'w rhoi ar CD wythnosol.

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch a Chymdeithas Deillion Gogledd Cymru neu galwch draw i'r ganolfan ym Mangor.



Manylion cyswllt: 325 Stryd Fawr, Bangor
Rhif Ffôn: 01248 353604
Cyfeiriad e-bost: admin.nwsb@btconnect.com



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
williams@parliament.uk



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrsc scaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafydddownen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltputw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen **@PlaidCymruOgwen**

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Profedigaeth

Bu farw William Vernon Thomas yn Ysbyty Glan Clwyd ar Ebrill 10, gynt o 5 Ffrwd Galed, Tregarth, yn 88 mlwydd oed. Bu ei angladd ym mynwent eglwys Coetmor a chydymdeimlwn gyda'i deulu a'i ffrindiau. Daeth y newyddion trist am farwolaeth Glyn Owen, 17 Maes Ogwen, ar Ebrill 27. Roedd yn briod gyda'r diweddar Gaynor, yn dad i Arthur, Ann a Donna , yn daid i Emma, Vicky, Dewi, Llinos, Glynne, Sion a Rhian ac yn hen daid i unarddeg o wyrion ac yn hen hen daid i dri. Cofiw'n hefyd am ei chwaer Olive a'r diweddar Selwyn ac Ellis. Bu ei angladd yn Eglwys Santes Fair, Y Gelli, ar Fai 4 ydd.

Cydymdeimlo

Ar Ebrill 4ydd yn 90 oed yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Margaret Jones, Caeathro. Roedd yn wreiddiol o Cava Ynysoedd yr Orkneys, Yr Alban ac yn fam i Pat, Talgae a Carys a John ac yn nain a hen nain annwyl.

Diolch

Dymuna Muriel, Dilys a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Eric. Gwethfawrogir yn fawr yr holl gardiau, blodau hardd a'r rhoddion tuag at Ymchwil Cancr, Ambiwylans Awyr Cymru a Tim Irfon. Diolch i'r Parch Christine McRae, Y Parch John Matthews, Y Parch Carol Roberts, Dr William Munroe, yr organydd, ac I Manon am roi teyrnged i Eric. Llawer o ddiolch i Meinir, Cyfarwyddwr Angladdau Dylan Griffith am eu gwasanaeth urddasol. Diolch yn fawr i bawb.

Clwb Cant Canolfan Tregarth

Mis Ebrill
David Hadfield £15 Rhif 6
Dorothy Schofield £10 Rhif 11
Margaret Jones £5 Rhif 1

Cylch Meithrin Tregarth

Mae plant Cylch Meithrin Tregarth wedi bod yn brysur iawn yn codi arian i'r Cylch drwy gymeryd rhan mewn taith gerdded nodedig. Cafwyd hwyl a sbort ar y daith yn mynd trwy Tynal Tywyll ac yna i'r cae chwarae ar helfa Elfed yr Eliffant. Yna bu'r plant yn cael hwyl fawr yn rhoi Elfed yn ôl at ei gilydd mewn jig-sô mawr. Codwyd dros

£280! Da iawn wir a diolch i bawb am eu cefnogaeth.
Bydd Y Cylch yn cynnal P'nawn Agored yn y ganolfan ar ddydd Mawrth 12fed o Fehefin am 1:00 y prynhawn, a bydd yn gyfle da i rieni a phlant gwrdd â'r staff a gweld y lleoliad cyn cychwyn yn Mis Medi. Croeso cynnes i bawb.
Hoffai'r cylch hysbysebu rôl Trysorydd i ymuno â'r pwyllgor. Os oes diddordeb, cysylltwch cylchmeithrintregarth@yahoo.co.uk
Yn olaf mae'r cylch yn cynnal Ffair Haf ar ddydd Sadwrn 21ain o Orffennaf 11:00 tan 4:00 yn y ganolfan. Am fwy o wybodaeth neu i gynnig help cysylltwch a ni (gweler ebost uchod)



Dyma'r plant a'r antis o flaen Tynal Tywyll.

Lladdwyr Balsam Tregarth

Yn 2017 ymunodd grŵp o drigolion lleol i ddechrau rheoli lledaeniad ffromlys / balsam o'r Himalaya (Jac y Neidiwr), sydd wedi lledaenu drwy'r ardal dros y blyneddau diwethaf. Er nad ydynt yn niweidiol i bobl nag anifeiliaid, gall y planhigion ymledol yma dyfu mor drwchus fel na all ein blodau brodorol Cymreig oroesi oddi tanynt.
Gwnaethom gychwyniad da'r llynedd ond mae angen i'r prosiect hwn barhau am nifer o flynyddoedd oherwydd bod llawer o ardaloedd wedi eu heintio. Gan fod ei hadau naid yn dueddol i'w ledaenu ar i lawr, ac yn arbennig ar hyd afonydd, eleni byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion yn Sling, i'w rwystro rhag ail-ymosod o diroedd uwch i ardaloedd wedi eu clirio'n barod. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn clirio mewn meysydd eraill lle mae'n tyfu ac yn lledaenu'n gryf.
Dewch i helpu. Po fwyaf o bobl sy'n cymryd rhan, hawsaf fydd y dasg. Mae croeso cynnes i bawb; dewch a chael hwyl a helpu'r amgylchedd! Byddwn yn cyfarfod ar y diwrnodau canlynol:
Dydd Mercher 23 Mai 7 y nos
Mercher 6 Mehefin 7 y nos
Dydd Sul 17 Mehefin 10.30 y bore
Dydd Sul 24 Mehefin 10.30 y bore
Mercher 11 Gorffennaf 7 y nos
Dydd Sul 22 Gorffennaf 10.30 y bore
Bydd manylion am leoliadau a manau cyfarfod ar gael ar dudalen Facebook *Tregarth Balsam Bashers / Lladdwyr Balsam Tregarth* neu cysylltwch â tamsinfretwell@hotmail.co.uk
Gallwch hefyd helpu trwy:
· Glirio'r planhigyn o'ch tir eich hun neu dir eich cymdogion

- gyda'u caniatâd wrth gwrs. Mae'n dadwreiddio yn hawdd iawn, a gellir ei gompostio neu ei adael mewn pentwr mewn cornel o'r cae iddo bydru yn y fan a'r lle.
· Fod yn ofalus peidio â chario hadau i ardaloedd newydd - ar gŵn neu ddillad neu esgidiau!

... a Gerlan

Yn yr un modd mae ardaloedd eraill y Dyffryn yn cael eu mygu gan y planhigyn hwn, ac mae trigolion Gerlan hefyd yn gobeithio dechrau ei reoli eleni.
Cysylltwch â markgahan0@gmail.com



Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Yn ein cyfarfod Mis Ebrill cawsom groesawu Linda Brown, Gerlan, Bethesda, atom i'r gangen. Rhoddodd Gwenda groeso mawr iddi gan ddiolch iddi am yr holl waith mae'n ei wneud yn y gymuned leol an yn ei gwaith bob dydd yn Weinyddwraig Cwmni Theatr Bara Caws sydd wedi'i leoli yng Nghaernarfon a hynny ers sefydlu'r cwmni. Cawsom fraslun o pa fath o waith a wneir i redeg cwmni o actorion gan sôn am y grantiau o wahanol ffynonellau y dibynnir arnynt i lwyddo llwyfannu sioeau o bob math. Wedyn aeth ati i sôn am y rhaglen deledu R'un Sbit y mae Linda a Caren ei merch yn rhan annatod ohoni a'r hwyl a geir yn ei chreu a'i darlledu. Diolchwyd i Linda am noson llawn hwyl ac adloniant gan Alwenna.

Nos Lun, Mai 14 cawn gwmni Arwyn Oliver a Now Jones i sgwrsio am 'Grwydro Llwybrau'r Ardal.' Cofiwch ddod draw i Festri Capel Shiloh am 7.30 lle bydd croeso cynnes yn eich disgwyl.

Capel Shiloh, Tregarth

Gwasanaethau am 5 o'r gloch
Mai 20 Cledwyn Williams, Bangor
Mai 27 Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Mehefin 3 Richard Gillion
Mehefin 10 Philip Barnett
Mehefin 17 Glyn Owen
Mehefin 24 Trefniant Lleol

Drws Agored
Cofiwch fod drysau Shiloh ar agor pob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch am gwmni, paned a sgwrs.

Y Synod yn Shiloh
Daeth cynrychiolaeth dda o wahanol rannau o Gymru i'r Synod a gynhaliwyd yn Shiloh, Dydd Sadwrn , Ebrill 21. Diolch o galon i aelodau'r capel fu'n helpu mewn unrhyw ffordd, ac i Bopdy Lleuar, Llanllyfni, am baratoi lluniaeth ardderchog i'r cynrychiolwyr.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau
Mai 20: Boreol Weddi ; Mai 27: Cymun Bendigaidd ; Mehefin 3: Boreol Weddi ; Mehefin 10 : Cymun Bendigaidd ; Mehefin 17: Boreol Weddi.
Pob gwasanaeth i ddechrau am 9.30yb.

Garddwest
Cynhelir yr Arddwest Flynyddol yn Ficerdy Pentir ar ddydd Sadwrn, 14 Gorffennaf am 1.00yp. Cofiwch ddod draw am bnawn difyr.

Ysgol Tregarth

Ffarwelio

Rydym yn ffarwelio a Miss Ffion Roberts sydd wedi bod yn aelod gwerthfawr o'r staff ers 8 mlynedd yn Nhregarth. Rydym yn diolch o galon iddi am ei hymroddiad i'r ysgol. Pob lwc i Miss Roberts yn ei menter nesaf.

Gweithdy Lego Mindstorm

Gwahoddwyd rhai o ddisgyblion Ysgol Tregarth i ymweld ag Ysgol Rhiwlas i gydweithio ar brosiect newydd. Rydym wedi derbyn offer cyfrifiadurol newydd yn dilyn yr ymweliad ac yn ystod y dydd fe ddysgwyd y disgyblion sut i ddefnyddio'r offer arbennig yma. Bydd cyfle i'r disgyblion a aeth i Ysgol Rhiwlas ddysgu disgyblion eraill a staff yr ysgol er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'r offer newydd.

Ymweliad â Chastell Caernarfon

Fel rhan o'r thema 'Chwedlau'r Ddraig' aeth Dosbarth Idwal ar ymeliad â Chastell Caernarfon. Cafwyd prynhawn bendigedig yn crwydro o amgylch y castell gan ddysgu am y gwahanol rannau sydd i gastell. Mae'r ymweliad wedi ein sbarduno i ysgrifennu cerdyn post yn disgrifio gwahanol rannau'r castell. Mae'r disgyblion hefyd wedi mwynhau chwarae rôl y gwahanol bobl fyddai yn byw yn y castell gan fod gennym gastell go iawn yn y dosbarth ac yn yr ardal tu allan!

Ymweliad Cestyll Caernarfon a Dolbadarn

Dydd Iau, Ebrill y 12 fed cafodd disgyblion Ffrydlas fynd ar wibdaith i ymweld a dau gastell. Yn gyntaf, aethom i Gastell Caernarfon a threulio amser yno'n dysgu am ei nodweddion a'i hanes, cyn teithio i Lanberis amser cinio. Yno cawsom bicnic, cyn archwilio safle Castell Dolbadarn ac ateb cwestiynau mewn cwis. Roedd yn gyfle penigamp i ddysgu hanes rhai o dywysogion Gwynedd a Chymru. Bu brwdfrydedd mawr, a phawb wedi mwynhau. Trefnwyd

yr ymweliad fel sbardun i'n gwaith thema Cestyll a Dreigiau. Diolch i'r drefn, welson ni'r un ddraig!

Penodi Pennaeth

Yn gyntaf, hoffem longyfarch Mrs Lliwen Jones, ar gwblhau yn llwyddiannus hyfforddiant a chymwyster CPCP. Yn dilyn hyn, hoffem ymhellach ei llongyfarch yn enfawr ar gael ei phenodi yn barhaol i swydd Pennaeth Ysgol Tregarth ac Ysgol Bodfeurig. Bu Mrs Jones yn gweithredu fel Pennaeth Mewn gofal Dros Dro ers, Pasg 2017, ac rydym fel staff a disgyblion yn ddwy ysgol yn hynod falch ac yn edrych ymlaen i'r blynnyddoedd i ddod o dan ei harweinyddiaeth gadarn.

Talent Cerddorol

Rydym ni yn Ysgol Tregarth yn hynod falch o allu llongyfarch Esther Lligwy Parry, sy'n ddisgybl ym mlwyddyn 4, ar eu hamryw lwyddiannau yn gyson ac aml. Gwyddom am ei thalent cerddorol, ac rydym yn dymuno lwc dda iddi wrth gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar yr unawd llinynnol dan 12 oed. Hefyd rhaid ei llongyfarch yn galonog ar gael ei derbyn yn ddisgybl yn y Coleg Cerdd Brenhinol ym Maenceinion (Royal Northern College of Music). Ym mis Medi bydd Esther yn teithio bob dydd Sadwrn i'r coleg Cerdd i gael eu dysgu yno. Yn sicr mae dyfodol disglair o flaen Esther, ac rydym yn ei llongyfarch yn fawr.



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen,
Rhiwlas ☎ 01248 355336

Arddangosfa 'Rhiwlas dros y blynyddoedd'

Dydd Sadwrn, 14 Ebrill cynhaliwyd arddangosfa hen ffotograffau 'Rhiwlas dros y blynyddoedd' yn y Neuadd Bentref. Roedd dros 250 o ffotograffau wedi eu casglu gan Cynrig a Cadi ers mis Ionawr 2018.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn, gyda dros 200 o bobl yn galw fewn i weld yr arddangosfa - rhai wedi teithio o Abertawe a Chaerdydd. Braf hefyd oedd gweld nifer o wynebau cyfarwydd wedi dychwelyd i'r Pentref i weld yr arddangosfa. Cafwyd sawl sgwrs ddifyr dros baned!

Roedd mynediad am ddim, ond roedd cyfle i bobl gyfrannu er budd y Neuadd Bentref - llwyddwyd i godi swm anrhydeddus iawn, £315.35 - diolch i bawb.

Diolch i bawb a fu'n rhannu eu ffotograffau, ac i bawb am ddod i weld yr arddangosfa. Braf oedd cael cymaint o fwrwm yn y Neuadd. Gobeithio y bydd hyn yn hwb i drefnu mwy o weithgareddau ar thema hanes yn y pentref yn y dyfodol.

Cydymdeimlo

Yn dawel yng nghartref Glanrhos, Brynsiencyn, ar Fawrth 28ain bu farw Mrs Meirwen Owen, Frondeg gynt, gweddw y diweddar Gruff a mam a mam ynghyfraith Einir a Hefin. Roedd yn un o wyth o blant y diweddar Bob a Magi Elin Thomas ac fe'i magwyd yn Awelfa, Rhes Uchaf a gedy ddwy chwaer, Nesta ac Edwina. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor ar y 9fed o Ebrill a'r gwasanaeth yng ngofal y Parchedigion Gwynfor Williams a Richard Gillian. Cafwyd darllenad o'r

Salmau gan ei nith, Sheelagh a theyrnged gan ei nai, Merfyn a soniodd fel roedd croeso bob amser yn Frondeg pan oedd yn ymweld â'r teulu, a byddai'n rhyfeddu at yr holl gwpanau arian oedd yno, wedi'u hennill gan Einir mewn eisteddfodau dros nifer o flynyddoedd. Roedd cerddoriaeth yn bwysig iawn i'r teulu a Meirwen a Gruff wedi meithrin doniau Einir, a'u hoff bleser oedd mynychu'r amrywiol Eisteddfodau yn flynyddol, ac aros yn y garafan, wrth gwrs. Bu'n aelod ffyddlon o gapel Pischac ac yn un o'r organyddion yno. Roedd cynulleidfa dda yn yr amlogfa, ac yn sicr fe fuasai'r canu cynulleidfaol wedi'i phlesio'n arw. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd record o Einir yn canu emyn ac roedd hyn yn hynod o drawiadol. Derbynwyd rhoddion tuag at Tŷ Gobaith ac Ambiwylans Awyr Cymru.

Clwb Rhiwen

Cyfarfod Ebrill11: gan mai cyfarfod cyntaf y tymor oedd hwn buom yn trafod y rhaglen am y misoedd i ddod. Braf hefyd oedd croesawu aelod newydd atom, Mrs Beryl Riley o Hafod Lon. Cawsom ddigon o syniadau, a bydd y tymor yma yn un prysur fel arfer. Ann a Dilys sy'n gyfrifol y baned y mis yma a Jean enillodd y raffl. Cyfarfod Ebrill 2: Diolch i Ann a Dilys am bartoi pnawn difyr ar ein cyfer. Frances enillodd y raffl.

Merched y Wawr

Cyfarfod Mis Ebrill: Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Elina, Jean ac Annes. Cawsom newyddion o'r rhanbarth gan Linda, manylion an yr Ŵyl Haf ac am ginio y Llywydd Cenedlaethol yng ngwesty Meifod. Ein gŵr gwadd oedd Cynrig Hughes a diolch i Cadi Iolen am ddod hefyd i helpu fel technegydd i'w thad.

PEN Y CEUNANT ISAF

Y B W T H Y N T É
www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW
01286 872 606



STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Rhifyn Mehefin - deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 30 Mai

os gwelwch yn dda. Plygu **nos Iau, 14 Mehefin**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Testun ei sgwrs oedd Plas Pentir ac fel un a fagwyd yn y pentref roeddwn wedi clywed amdano ers yn ifanc ond eto heb fawr o fanylion am y lle a'r teulu oedd yn byw yno. Cyn dechrau ymchwilio i hanes y teulu roedd Cynrig wedi gosod meini prawf iddo'i hun, ac yn eu mysg roedd am wybod os oedd yr etifedd olaf wedi gwario'r pres i gyd. A ddihangodd yr etifedd olaf i America er mwyn osgoi talu dyledion ac a adeiladwyd Eglwys Sant Cedol â cherrig y plas? Roedd am wybod llawer mwy ac fe dreuliodd oriau yn yr Archifdy i ddysgu am hynt a helynt y teulu ac a oedd y sylwadau a glywodd yn wir ai peidio. Dydw i ddim am ddatgelu mwy gan fod Cynrig yn rhoi'r ddarlith yma eto yn yr ardal. Yn sicr roedd wedi gwneud ymchwil trylwyr ac wedi cael atebion i'r meini prawf. Diolch am noson hynod o ddiddorol. Diolch hefyd i Carys a Linda am wneud y te. Dilys enillodd y raffl.

Lôn Bach Awyr - esboniad gan Cynrig Hughes

Bu i Aled Hughes ar ei raglen radio wneud cais am ystyr Lôn Bach Awyr. Dilynodd Iona hyn i fyny drwy geisio cael pobl i ymateb yn y Llais. Cysylltodd Cynrig gyda Dr Hywel Wyn Owen, arbenigwr mewn ystyr enwau lleol ac awdur sawl llyfr ar y testun. Ar ôl ychydig ddyddiau a gwaith ymchwil, daeth Dr Hywel Wyn Owen yn ôl gydag eglurhad diddorol. Mae'n dweud bod "Awyr" yn deillio o enw personol, unai Howyr neu Cwyr fel y ceir yn Rhos Howyr yn Darowen, Maldwyn. Drwy edrych ar hen ddogfennau byddai modd efallai i ddod ar draws y person yma oedd yn byw yn lleol neu yn berchen tir yn yr ardal. Yn wir mae'r enw Penhower Isaf yn bodoli yn ardal Caerhun sydd yn ychwanegu at y ddadl. Felly beth am "Bach"? Mae Dr Hywel Wyn Owen yn cynnig mai dim 'bach/ bychan' sy yma ond 'cilfach neu dro mewn ffordd neu afon. Dyma ystyr Eglwysbach yn Nyffryn Conwy, eglwys mewn tro yn yr afon. Ystyr Lôn Bach Awyr ydy

ffordd yn arwain at gilfach sy'n gysylltiedig â pherson o'r enw Howyr/Cwyr. Mae hyn yn gwneud synnwyr oherwydd cyn sythu'r hen lôn bost a newid ei chyfeiriad roedd tro eithaf sylweddol ar y lôn fel y byddai'n dod o Bentir ac i fyny am Rhiwlas/ Carfan a Felin Uchaf. (Diolch Cynrig am ymateb i fy nghais am eglurhad ac am holi Dr Hywel Wyn Owen, mae'r eglurhad yn hynod o ddiddorol).

Dymuno'n dda

Mae sawl un o'r pentref wedi bod yn symol yn ddiweddar, gartref, yn yr ysbyty neu mewn cartref gofal. Anfonwn ein cofion atoch gan ddymuno'n dda i chi i gyd.

Noson yng nghwmni Gareth Roberts

Mae Gareth yn gweithio i Menter Fachwen ac wedi bod yn gyfrifol am lunio mapiau unigryw o'n plwyfi, a'r cyntaf un oedd plwyf Llanddeiniolen ac oherwydd poblogrwydd y map yma gofynnwyd iddo lunio sawl un arall. Fe drefnodd noson o hanes Pentir, Rhiwlas a Llanddeiniolen yn y Neuadd a braf oedd gweld cynnifer wedi dod i'r cyfarfod. Cawsom sgwrs a sleidiau am hanes ac archaeoleg yr ardal o'r oes efydd i'r Ail Ryfel Byd. Roedd

ambell i sgandal a llofruddiaeth hefyd! Ymysg ei sleidiau roedd rhai a oedd wedi'u tynnu o'r awyr a rhain yn cydfynd â'r damcaniaethau. Mae' awyddus i glywed mwy o storïau am yr ardal. Cafwyd noson ddifyr! Diolch Gareth!

Llythyr o Werthfawrogiad am yr Arddangosfa

Dyma beth oedd diwrnod i'w gofio. Hoffai aelodau o deulu "WERN" gynt, longyfarch rhai o garedigion y Neuadd Bentref am eu dewrder yn mentro i lwyfanu y fath fenter. Dim yn gwybod beth i'w ddisgwyl - ond yn wir - ar ôl cyrraedd y Neuadd a chael 'chydig eiliadau i gynefino â'r arlwy wefreiddiol, roedd yn werth chweil. Paned a chacen gri yn cyrraedd y bwrdd - bendithiol iawn ar ôl y siwrne. Diolch i ferched y gegin am eu paratoadau a'u caredigrwydd. Yn naturiol bu cryn sgwrsio a hel atgofion o bob math ynghyd ac ambell ddeigryn o dristwch a llawenydd. Cael cyfarfod â thrigolion yr ardal nad oeddwn wedi'u gweld ers blyneddau gan ddwyn i gof llawer hynt a helynt. Trueni i ni fethu gweld nifer o'r genod aeth draw yn y pnawn, ond gobeithio cael eu cwmni'n fuan iawn/ Do,

cawsom ddigon o chwerthin a chroeso twymgalon gan bawb ac roeddwn wedi cael diwrnod oedd wrth fy modd. Llawer o ddiolch i bawb ohonoch a'n cofion hiraethus atoch ! HEULWEN (Blaenau Ffestiniog).

Gair o Ddiolch

Dymuna Einir Wyn a Hefin a theulu'r diweddar Meirwen (Miw) Owen, Frondeg, Rhiwlas, ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cydymdeimlad, a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth. Diolch am eich rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Tŷ Gobaith ac Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch hefyd i'r Parchedigion Gwynfor Williams a Richard Gillion, a'r organydd Wyn Williams am eu gwasanaeth ddydd yr angladd. Diolch hefyd i'r ymgymrwyr Stephen Jones, Bethesda am y trefniadau gofalus a thrylwyr.

Yr arddangosfa o hen luniau Diolch i Cynrig a Cadi am drefnu'r digwyddiad. Golygodd hyn ddipyn o waith iddynt, a braf oedd gweld yr ymateb ar y diwrnod. Daeth pobl yno o bell ac agos a bu dipyn o hel atgofion uwch y baned. Diolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad.



Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Recordio CD newydd yn Ysgol Friars

Mae'r côr yn y broses o baratoi am CD newydd ac ychydig yn ôl bu un ymarfer a sesiwn recordio yn Ysgol Friars, Bangor, am y rheswm bod yr ysgol honno yn fwy diarffordd nag unrhyw adeilad addas arall, ac yn llai tebygol o godi synau traffig a phethau o'r fath. Bydd y CD yn cynnwys nifer o ganeuon newydd a threfniannau ffres o ganeuon mwy cyfarwydd a gobeithir ei chael yn barod cyn y Nadolig. Edrychwn ymlaen at gael cyflwyno rhai o ganeuon mwyaf poblogaidd y côr mewn cyngherddau i gynulleidfaoedd eraill.

Canu gyda Damon Albarn prif unawdydd 'Blur'

Mae Damon Albarn prif leisydd y grŵp poblogaidd o'r 90au, 'Blur' wedi gofyn i'r côr recordio gydag ef ar CD newydd mae'n ei gynhyrchu. Nid yn unig mae Albarn yn un o brif sêr y byd roc yn fyd eang ond mae hefyd yn aelod a phrif leisydd tri o grwpiau eraill gan gynnwys un o'r enw 'Gorillaz'. Yn 2010 daeth Damon Albarn yn 4ydd mewn pleidlais i fod yn un o'r sêr blaen mwyaf erioed yn y byd roc, ac yn 2016 derbyniodd Wobr Ivor



Aled Williams



John Baston



Dafydd Pritchard



Maldwyn Pritchard

Novello am gyflawniad oes gan Academi Cyfansoddwyr, Awduron ac Ysgrifenydd Caneuon Prydain. Ymhlith y caneuon gan 'Blur' a ddringodd yn uchel yn y siartiau pop mae "She's So High" a "There's No Other Way".

Cymalau'n clecian

Mae aelodau'r côr yn edrych ymlaen at gael cyfarfod y gŵr ifanc hwn sydd wedi dewis un o

gorau meibion prysuraf a mwyaf cyffrous Cymru i gyd-ganu gydag ef ar ei CD newydd. Meddai Aled Williams o Lanfairfechan a Dafydd Pritchard o Dal-y-bont, y naill yn canu gyda'r Bas 1af a'r llall gyda'r Tenoriaid 1af,

"Mae gynnon ni wyrion sydd wedi gwirioni ar 'Blur' ac maen nhw wedi gofyn i ni sicrhau llofnod Damon Albarn pan gawn gyfarfod ag ef."

Roedd John Baston (Tenor 1) a Maldwyn Pritchard (Bas 2) yr un mor gyffrous pan ddywedon nhw,

"Er bod ein cymalau wedi dechrau clecian ers sbel, dan ni'n dau yn ifanc ein hysbryd o hyd, ac mae sŵn rhythmau caneuon 'Blur' a llais melodaidd Damon yn llwyddo i wneud i ni siglo i'r bît."

Henllys yn ail gychwyn

Wedi i ni fethu mynd i gynnal cyngerdd cynta'r flwyddyn yn Henllys ger Biwmares ym mis Ionawr oherwydd yr eira, daeth cyfle i ni ail gyfarfod yno ar Nos Iau, Ebrill 19. Cafwyd cyngerdd i'w gofio yno unwaith eto wrth i'r gynulleidfa groesawus



Damon Albarn prif leisydd 'Blur' yn perfformio ar lwyfan

gymeradwyo perfformiad y côr trwy ofyn yn daer am fwy o ganeuon ar ddiwedd y cyngerdd. Mae pawb sy'n mynychu'r cyngerddau yn yr hen blasty'n dweud mai Côr y Penrhyn yw eu hoff berfformwyr a byddant bob amser yn edrych ymlaen gydag eiddgarwch anghyffredin at ymddangosiad y côr o Ddyffryn Ogwen.

Melystra

Bu Cadeirydd y côr, Dafydd Jones Morris, yn siarad gydag amryw o'r gynulleidfa a dywedodd un cwpl o dde Lloegr eu bod yn aelodau o gôr cymysg yn eu bro ond nad oedd y melodïau a'r sain a gynyrchid gan gorau tebyg i'w côr hwy yn agos at felystra canu Côr y Penrhyn. Canmoliaeth fel hyn sy'n gwneud i aelodau'r côr deimlo eu bod yn cyfrannu rhywbeth gwerthfawr at ddiddanwch a diwylliant cerddorol y gymdeithas Gymraeg a'r un di-Gymraeg. Mae'r côr yn sicrhau poblogrwydd trwy gyflwyno darnau mewn sawl iaith sy'n sicrhau gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd o gefndiroedd amrywiol. Cenir darn gan Gareth Glynn yn Gymraeg neu gyfansoddiad Saesneg a droswyd i'r Gymraeg gan Eric Clapton, yn ogystal â chân Lladin a Chymraeg gan Robat Arwyn. Yn ychwanegol ceir

darn o Dde Affrica yn iaith frodorol y wlad honno a dim ond ychydig iawn o gorau all gyflwyno perfformiad gyda nifer o unawdwyr gan fod Côr y Penrhyn yn gallu galw ar wasanaeth Hywel Thomas, Raymond Roberts, John Outram, Caleb Rhys Jones, Elfyn Bullock a Rheinallt Davies pan fo angen.

Cyngerdd Sant Ioan

Ar Fai 10fed bydd y côr yn perfformio yn eglwys Sant Ioan, Llandudno. Dyma un o'r lleoedd y bydd disgwyl mawr am ymddangosiad Côr y Penrhyn. Bydd y gynulleidfa bob amser yn mynnu cael 'encore' ac edrychwn ymlaen at ein hymweliad â'r dref wyliau enwog ar arfordir Gogledd Cymru. Mae Owain Arwel, arweinydd y côr, yn un o blant yr ardal wrth gwrs, gan iddo gael ei fagu ym Mae Penrhyn ac wedi derbyn ei addysg yn Ysgol y Creuddyn. Mae Arwel yn gerddor digyffelyb gan iddo gymryd rhan yn llwyddiannau band pres Biwmares a'r band jas, Llareggub, ond hefyd bu'n gyfrifol am ddatblygu cerddorion ifanc yn Ysgol Tryfan. Mae hefyd wedi paratoi trefniannau o lu o ganeuon Cymraeg a Saesneg ac mae ei egni a'i frwdfrydedd yn chwedlonol heb sôn am ei ddawn i gyflwyno cyngerddau mewn dull adloniadol a difyr.

Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Marchnad Ogwen

Ni fydd y Farchnad yn ei chartref arferol - sef Neuadd Ogwen - ar gyfer Marchnad mis Mehefin. Gobeithio y bydd y tywydd yn garedig wrthym y tro yma ac y byddwn yn ein pabell ar gae Sioe Dyffryn Ogwen. Mehefin 9fed yw'r dyddiad. Croeso cynnes.

Rydym yn estyn croeso cynnes iawn i'n stondin flodau / planhigion newydd. Mae'r stondin yng ngofal Gwynfryn Davies, neu Wil fel

ei adnabyddir, gynt o Fynydd Llandygai. Ers iddo ymddeol, mae Wil yn ymddiddori mewn tyfu blodau a rhai llysïau. Mae cyfle i gael blodau haf i'r basgedi crog a'r tybiau. Croeso Wil.

Does dim Stondin Elusen ym Marchnad Mehefin oherwydd diffyg lle yn ein pabell. Yr un nesaf sydd ar gael yw mis Ionawr nesaf. Mae manylion llawn ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar facebook a Twitter.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131



mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar Welsh early years specialists

Sgiliau Newydd, Cyfle Newydd

CWRS NEWYDD: Medi 2018 - Awst 2019

Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Cyfle i ennill cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn rhad ac am ddim mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymuno yn y cynllun hyfforddi arbennig yma.

01970 639 601
www.meithrin.cymru/lefel3
www.twitter.com/dipl3gofalplant
lefel3@meithrin.cymru

Dyddiad cau: 01/06/2018

 #MeithrinMiliwn



Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb ar bnawn Mercher braf ar yr unfed ar ddeg o Ebrill. Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Rydym yn anfon ein cofion at Avril Griffith sydd yn cael triniaeth yn ysbyty Glan Clwyd. Cydymdeimlwyd a Margaret Owen sydd wedi colli ei chwaer yng nghyfraith yn Rhiwlas. Diolchwyd i Margaret am gymryd gofal o agor a chloi a pharatoi'r llestri at baned gan fod Helen ar ei gwyliau. Paratowyd y te gan Vera a Glenys Rowlands. Tro nesaf bydd Eirwen a Margaret Rees Williams yn gwneud y te. Rhoddwyd y raffl gan Margaret Owen ac enillwyd gan Glenys Roberts.

Yna croesawyd Rhian Griffiths o Gaernarfon sydd yn swyddog cyswllt cymunedol. Caiff ei chyfflogi o dan asgell Mantell Gwynedd, ac yn gweithio'n agos efo meddygon a nyrsys yn y gymuned i ddelio efo problemau cymdeithasol. Nid yw pawb sy'n mynd at y meddyg angen triniaeth feddygol - mae llawer iawn o broblemau eraill. Cafwyd pnawn diddorol iawn a llawer iawn o wybodaeth.

Croeso nôl!

Croesawn Iain a Janet Scott yn ôl i'r siop a swyddfa'r post wedi eu hymweliad tramor - ond llongyfarchwn dîm y siop a oedd wedi ymdopi yn dda iawn hebddynt.

Hefyd croesawn Helen Williams a Dafydd Coetmor yn ôl wedi'u gwyliau ym Mhortiwal i ail siarsio'r batris, gan adael yr Ysgol Sul yng ngofal yr athrawon.

Ras Moel Wnion

Da iawn oedd gweld ras Moel Wnion o Fferm Pont Hwfa i'r cyn anheddfa uwchben ffordd y mynydd, gyda'r cofrestriad yn ysgol Llanllechid. Diolch i Ross Roberts am drefnu'r digwyddiad mor llyfn. Gobeithio y bydd hyn yn achlysur blynyddol.

Bin newydd

Mae'n dda gennym weld bod y bin ysbwriel newydd ger maes parcio ysgol Llanllechid yn cael defnydd cyson a pharchus wedi i'r cynghorwyr ymdrechu i'w gael.

Diolch

Dymuna Alison Jones, y Dderwen Frenhinol, ddiolch i bawb a lesteiriodd ei phrofedigaeth wrth golli Geraint ei gŵr. Diolchwn i'n swyddog priffordd (Mr Huw Griffiths) am ei ofal yn ystod y flwyddyn yn

enwedig yn ystod y tywydd gwael. Dymuna Jean Williams, 60 Maes Bleddyn, Ellen, Janet, Philip, Gary a'r teulu i gyd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl sef Jack Williams, neu Jack 60 fel 'roedd pawb yn ei adnabod. Diolch am y llu o gardiau a rhoddion a dderbyniwyd a throsglwyddwyd yr arian er cof i Gronfa Meddygfa Bethesda ac i Ysgol Llanllechid. Maent yn hynod o ddiolchgar i'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams ac i Mr Gareth Williams am eu gwasanaeth parchus.

Penblwyddi

Penblwydd hapus iawn i Kieran Thomas, Llwyn Bedw ar ddathlu ei benblwydd yn 40 oed yn ddiweddar. Penblwydd hapus i Eiry Gwyn yn flwydd oed ar Ebrill 16. Penblwydd hapus iawn hefyd i Gruffudd Beech yn 7 oed ar Fai 5ed.

Clwb Hanes Rachub

Cafwyd sgwrs tu hwnt o ddiddorol gan Mr Ken Griffith o Rachub am ddau artist enwog a fu'n byw yn Nhŷ'r Mynydd, sef y tŷ a saif ger giat Moel Faban. Brenda Chamberlain a John Petts oedd y ddau artist talentog, Brenda yn enedigol o Fangor a John o Lundain. Cyfarfu'r ddau yn y coleg yn Llundain, ac yna, ym 1935, priodi yn Kensington, cyn symud i fyw i Rachub! Roedd y ddau yn gwirioni ar gerdded a dringo mynyddoedd, ac yn cael eu hystyried gan y pentrefwyr yn gwpwl go 'wahanol', yn enwedig gan eu bod wedi prynu caseg yn hytrach na char er mwyn teithio yma a thraw, a chael eu galw'n 'Mair a Joseff' gan bobol Rachub! Cafodd y ddau lwyddiannau mawr yn y byd celfyddydol er na fu'r daith yn un rhwydd. Gwelwyd eu campweithiau ar y sgrin gan Ken, o'r cymeriadau a'r golygfeydd lleol i'r ffenest liw enwog a greodd John Petts i gofio am bedair o ferched ifainc croenddu a lofruddiwyd yn Alabama. Mae'r ffenest hon yn drawiadol tu hwnt, sef delwedd o Grist croenddu ar gefndir o las bendigedig, cofeb arbennig i'r merched a laddwyd gan ffrwydriad a osodwyd gan eithafwyr gwynion y KKK ym 1964. Prynu a sefydlu'r 'Caseg Press', gwerthu 'broadsheets' i enwogion fel Lloyd George a Clough Williams Ellis, gwneud cardiau a gwaith llythrennu i fusnesau, arddangos gweithiau celf yn yr un orielau a Picasso a Dali, heb son am ennill Medal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol nifer o weithiau! Ydy wir, mae campau'r ddau yn ddi-ddiwedd, a diolch o galon i Ken am ddod

a'r cyfan i'n sylw! Mae ei waith ymchwil yn drylwyr a manwl, a byddai'n rhaid cael cannoedd o dudalennau i wneud cyfiawnder â'r cyfan! Llongyfarchiadau Ken! Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, Nos Fercher, Mai 30, pan fydd Dr. Dafydd Roberts yn rhoi sgwrs yn dwyn y teitl 'Tun Bwyd Chwarelwyr'. A gyda llaw, os oes gennych unrhyw hen luniau sy'n gysylltiedig â Rachub, gwnewch gopiau ohonynt a dewch a nhw draw i'r Clwb, gan ein bod yn paratoi arddangosfa luniau ym Mis Mehefin!

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau
Mai 20: Cymanfa Ysgolion Sul yn Emaus, Bangor am 10.30yb.
Mai 20: Parchg. Ddr. Siôn Aled Owen am 2.00yp.
Mai 27: Gweinidog. 5.00yp
Mehefin 3: Gweinidog (Cymun) 5.00yp
Mehefin 10: Parchg. Dewi T. Morris. 5.00 yp.
Mehefin 17: Parchg. Marcus Robinson. 5.00yp.
Croeso cynnes i bawb

Ysgol Sul am 10.30yb.
Dwylo Pysur, bob nos Wener am 6.30 yh.
Te bach, dydd Llun, 21 Mai. 2.30yp - 4.00yp.

Cofion cynnes at yr aelodau sy'n sâl gartref neu yn yr ysbyty.

Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Thomas Jones, Rhos y Coed, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer, Heddwen ym Mangor.

Dydd Sul, 22 Ebrill, cafwyd oedfa fendithiol wedi ei threfnu gan lywydd y mis, Mrs. Megan Tomos. Yn cynorthwyo roedd Millie, Deri a Joe gyda Mr. John R. Jones ar yr organ. Yna, ar nos Sul, 29 Ebrill, cafwyd Oedfa Deulu ar y thema "Y Gwynfydau", allan o lyfr gwasanaethau'r Parchg. John Lewis Jones. Y teulu a gynhaliodd yr oedfa oedd Mrs. Glenys Morgan, Dewi, Sharon, Owain a Hannah. Mrs. Helen Williams oedd wrth yr organ. Diolchwyd i'r teulu am fod mor barod i gymryd rhan gan Mrs. Megan Tomos.

Ar nos Fercher 2 Mai, croesawyd Cwrdd Chwarter Gogledd Arfon i Garmel. Y Parchedig Gareth Edwards oedd yn y gadair gyda'r gwasanaeth dechreuol yng ngofal aelodau Carmel sef Megan, John a Joe, gyda Mrs. Helen Williams wrth yr organ. Yn ail ran y cyfarfod cyflwynwyd her i'r eglwysi gan y Parchedig Cassie Jones. Wedi'r cyfarfod aeth pawb i'r festri am luniaeth ysgafn a baratowyd gan Helen, Millie, Wendy, Eira a Megan. Diolchwyd i'r chwirydd gan y Parchedig John Lewis Jones.



Dyma rai ohonom yn sefyll tu allan i'r cabidyldy

Clwb Dwylo Prysur
Yn ystod gwyliau'r Pasg cafodd aelodau Clwb Dwylo Prysur gyfle i ymweld ag Abaty Glyn y Groes, nid nepell o Langollen. Aethom yno ar hyd yr A55 nes i ni droi am Ddinbych a Rhuthun, dringo i fyni am Llandegla, ac yna troi i lawr Bwlch yr Oerddrws hyd nes cyrraedd yr Abaty. 'Roeddem yn sylwi pa mor dal oedd yr adeilad yn sefyll o hyd o gofio mai tua 1201 y dechreuwyd adeiladu'r Abaty. 'Roedd y cloestrau'n werth eu gweld, a chawsom

wasanaeth syml yn y cabidyldy, o gyd-ddarllen, gweddi ac emyn.
Aethom yn ein blaenau wedyn i Langollen a chael rhywbeth i'w fwyta. Yna aeth rhai ohonom o gwmpas y siopau a'r Amgueddfa, ac aeth eraill i weld yr Eglwys yno. Cawsom ddiwrnod braf efo'n gilydd, a chael dysgu rhai pethau newydd hefyd. Diolch i Derfel am drefnu i fynd â ni yno yn un o Fysus Gwyrdd Rhiwlas, ac i Steve am ddreifio'r bws mor ofalus.

Pentir

Cynrig a Carys Hughes, Rallt Uchaf,
Pentir, LL57 4YB. ☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Glain Dafydd
Ar yr 20fed Ebrill daeth Gwyl Delynau Rhyngwladol Cymru i ben gyda chyngerdd yn Neuadd Pontio, Bangor. Ynghyd â Syr Bryn Terfel a nifer o artistiaid talentog eraill, fe berfformiodd Glain Dafydd eitemau ar y delyn. Gwelwyd Glain yn perfformio darn gan Louis Sphohr a cherddoriaeth arbennig i'r delyn gan Benjamin Britten. Braf oedd cael y cyfle i wrando ar Glain mewn cyngerdd lleol a hithau yn byw ac yn gweithio yn Llundain ar hyn o bryd. Dymunwn yn dda iddi fel mae ei gyrfa'n datblygu.

Eglwys St. Cedol, Pentir
Clwb 100 - Mis Ebrill 2018
1af. Rhif 50. Eirwen Williams, Rhiwlas
2ail. Rhif 9. Catherine Roberts, Rhiwlas
3ydd. Rhif 12 Jac Hughes, Rhiwlas

Garddwest
Bydd ein garddwest flynyddol yn cael ei

chynnal eleni ar y 26 Mai am 1.30yh yn Y Ficerdy, Pentir. Bydd amrywiol stondinau, yn cynnwys cynyrch cartref, nwyddau newydd, tombola, stondin boteli, mefys a hufen, a raffi, helfa drysor, gemau i blant a lluniaeth ysgafn. Croeso cynnes i chwi ymuno a ni am brynhawn o hwyl.

Bedydd
Dydd Sul y 29 Ebrill, bydyddiwyd Jac Glyn Roberts Hughes, mab bach Kim a Dylan, 7 Hafod Lon, Rhiwlas a brawd bach Ella. Roedd y gwasanaeth dan ofal Y Parch. Christina McCrea a'r Parch. Ddr. Carol Roberts, a'r organyddes oedd Sharon Williams.

Gwasanaethau'r Sul
Mae'r gwasanaethau am 9.45yb

- 20.5.18. Cymun Bendigaidd
- 27.5.18. Boreol weddi
- 3.6.18. Cymun pawb
- 10.6.18. Boreol weddi
- 17.6.18. Cymun bendigaidd
- 24.6.18. Boreol Weddi

Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni yn y gwasanaethau.

JOHN ROBERTS

**Paentiwr
Papurwr
Teilsiw**



**Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995**

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Creffttau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopal! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)

partneriaeth@ogwen.org
01248 208 485

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda**

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com



Gwirfoddolwyr eu hangen

Chwilio am gyfle i wneud gwahaniaeth yn eich cymuned?

Mae Partneriaeth Ogwen yn gweithio ar nifer o brosiectau cymunedol ac angen gwirfoddolwyr.

Os oes gennych chi diddordeb, ebostiwch donna@ogwen.org neu ffoniwch 01248 602131.

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Margaret a Neville Fearnley, Helyg. Bu farw eu merch-yng-nghyfraith yn dawel yn ei chartref ym Manceinion, yn dilyn cystudd hir a ddioddefod yn ddewr a di-gŵyn.

Newid Aelwyd

Croeso i Michael ac Yvonne Wynne, sydd wedi symud o Lanfairfechan i ‘Cartref’, Talybont, yn ddiweddar. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith. Ar yr un pryd, anfonwn gofion cynnes a dymuniadau gorau i Nancy Newman yn ei chartref newydd ym Mangor.

Sefydlwyd1969

m.hughes
a’i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru

Owen’sTregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Dylan, 13. Dolhelyg, sydd newydd ddathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed. Dymuniadau gorau i’r dyfodol iti, Dylan.

Ysgoloriaeth

Mae Elen Wyn, 36. Bro Emrys, wedi ennill Ysgoloriaeth William Salesbury, dan nawdd y Coleg Cymraeg. Llongyfarchiadau iti, Elen, a phob llwyddiant yn arholiadau’r Haf!

Dymuniadau Gorau

Pob hwyl i’r bobl ifainc i gyd yn y gwahanol arholiadau sy’n eu gwynebu’r tymor hwn. Gobeithio y cewch fynediad i ba bynnag faes y mynnoch.

Diolch

Dymuna Eirlys Ellis, Bro Emrys, ddiolch o galon i’w chymdogion, ffrindiau a’i theulu am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar.
Mae Sister Bethan Griffiths yn dymuno diolch o galon i’w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu holl gymorth a chefnogaeth yn ystod ei hanhwylder diweddar.

Brysiwch Wella

Mae nifer o drigolion y pentref wedi bod yn cwyno yn ystod y mis diwethaf; rhai wedi treulio ychydig o ddyddiau yn yr ysbyty, ac ambell un yn dod dros effeithiau damwain, neu godwm. I bawb sy’n teimlo ychydig o dan y don, dymunwn wellhad llwyr a buan ichi. Bydd hi’n haws codi allan unwaith y daw’r tywydd cynnes y buom yn disgwyl mor hir amdano!

Eglwys St Cross

Gweithgareddau
Diolch i bawb sy’n cefnogi’r boreau coffi yn yr Ysgoldy ar y dydd Mawrth cyntaf yn y mis, yn enwedig y criw o gerddwyr sy’n dod i lawr o Fethesda. Bydd yr un nesaf yn cael ei gynnal ar Fehefin 5ed.

Bingo: Nos Wener, Mehefin 22ain am 7 o’r gloch yn yr Ysgoldy.

Garddwest y Tair Eglwys: Dydd Sadwrn, Gorffennaf 14eg am 1 o’r gloch yng ngardd y Ficerdy, Pentir

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.
Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -
Ffoniwch
01248 601164

Dymuniadau gorau
Dymunwn wellhad buan i Mrs Bethan Griffiths sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar. Roedd rhaid iddi dreulio dwy noson yn yr ysbyty, ond falch o ddweud ei bod hi wedi dod adref ac yn cryfhau bob dydd. Diolch hefyd i’w chymdogion, yn enwedig Llinos a Rhian Hâf, sydd wedi bod yn garedig tu hwnt yn cadw llygad arni hi.

Capel Bethlehem

Mai 20: CAU – Cymanfa Ysgolion Sul yn Emaus, Bangor. Mai 27: Gweinidog; Mehefin 3: Parchg. John Gwilym Jones; Mehefin 10: Gweinidog; Mehefin 17: Parchg. Gerallt Lloyd Evans; Mehefin 24: Gweinidog.
Oedfaon am 2.00yp oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Damwain

Dymunwn wellhad buan i Mrs. Iola Williams yn dilyn ei damwain. Derbyniodd lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, a bellach mae hi’n gwella yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.
Anfonwn ein cofion hefyd at Llew Jones.

Bwrlwm

Aeth criw ohonom i fwynhau “Tonic” gyda Rhys Meirion ac Annette Bryn Parri yn Galeri, Caernarfon ar bnawn Iau, 26 Ebrill. Pawb wedi mwynhau dwy wledd, sef cinio ardderchog yn Tŷ Golchi ar y ffordd i Galeri, a gwledd arall oddi ar lwyfan y cyngerdd.

Dymunwyd “Penblwydd Hapus “ yn 80 oed ar 14 Ebrill Elfed Bullock. Dyma lun ohono ar fin torri’r gacen yng nghyfarfod Ebrill o’r Bwrlwm.



Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Brwydr sy'n dechrau cadw helynt (3)
- 3 Ewch allan ac i'r de (3)
- 5 Mae'n anodd tynnu hwn o hen geffyl (*dihareb*) (4)
- 8 Fferins sy'n gwneud eich tafod yn ddu yng Nghydweli (5)
- 9 Merched a cho' drwg wedi drysu wrth swyno a melltithio (7)
- 10 Mewn gair, enw i ddal y nofiwr (7)
- 12 "Brithwyd y berth hyd y bôn -- --- gan fwyar duon", englyn 'Medi', Isoel (2,3)
- 13 Dod a nhw at ei gilydd (3)
- 15 'Mewn ----', llyfr sy'n dal ar gael (5)
- 17 Ymryson a chwarae am y sgôr orau (3)
- 19 Ardal fynyddig hardd yn Alpau Awstria (5)
- 20 Os am grwydro yn 19 Ar Draws, gwell mynd a hwn efo chi (7)
- 23 Cytundeb yswiriant ar gelfi (7)
- 24 Bod yn wylidwrus, rhag bod ei falog yn chwithig ! (5)
- 25 240d gynt (4)
- 26 Nawddsant oedd ei phlentyn (3)
- 27 Diwrnod rhoi help i gario dŵr efallai (3)

I LAWR

- 1 Prifysgolion (7)
- 2 Yn draddodiadol, un y pobydd sy'n 13 (5)
- 3 'Bara angylion Duw' (5)
- 4 Llonydd a diog (5)
- 5 Rwy'n cysgodi mewn côt ynghanol y storm gref (7)
- 6 Iechyd bregus mewn diweddglo llesg am nad yw'n yfed digon (7)
- 7 Ydi, yn hen ffasiwn (4)
- 11 Llenwi ecob gan rai sy'n dychwelyd (3)
- 14 Mewn 17 Ar Draws efo'r bêl hirgron mae hwn yn sgîl i'w edmygu (7)
- 15 Yn aml mewn pant mae lle diogel i gerdded (7)
- 16 Rhif sy'n od ar y --- yn y pnawn (3)
- 18 Gwobrau Olympaidd (7)
- 19 Pesychu (4)
- 20 I gael smôc cyn te yn drefnus (5)
- 21 Defnyddio 20 I Lawr i gael hwn (5)
- 22 Mae'r rafin wedi drysu'n llwyr ac yn dod ag amarch i'w deulu (5)

ATEBION CROESAIR EBRILL 2018

- AR DRAWS** 1 Gwadu, 4 Cwlwm, 7 Abl, 8 Difa, 9 Yfwr, 11 Tanbaid, 13 Paned, 14 Deorfa, 15 Difaru, 19 Gogor, 21 Dinesydd, 22 Achau, 23 Diod, 25 Ras, 26 Wfftio, 27 Di-lol
- I LAWR** 1 Gwastad, 2 Arlunio, 3 Uwd, 4 Cyfodi, 5 Mafon, 6 Brad, 10 Opsiwn, 12 Anferth, 16 Amserol, 17 Urddasol, 18 Edwino, 19 Gwag, 20 Gwayw, 24 Dad

Dim ond un gwall a gafwyd y tro yma, sef 'Anaf' yn lle'r ateb cywir 'Achau'.

1		2		3		4		5		6		
												7
8						9						
10					11			12				
13		14		15			16			17		18
19						20		21		22		
23								24				
	25					26				27		

Llongyfarchiadau i'r canlynol am atebion cywir: Mair Williams, Mynydd Llandegai; Doris Shaw, Bangor; Angharad Watkins a Huw Pritchard, Caerdydd; John H. Evans, Llanberis; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; J. R. ac M. A. Jones, Llanllechid; Dilys W. Griffith, Abergele; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys Parry, Rhiwlas; Gareth William Jones, Bow Street;

Jean Hughes, Barbara Jones, Talybont; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth;

Mae'r clod a'r wobr y mis hwn yn mynd i Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys, Abererch, Pwllheli LL536YP. Atebion erbyn 1af Mehefin, 2018 i 'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Atebion erbyn 1 Mehefin, 2018 i 'Croesair Mai'

Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog
Trefn Gwasanaethau
Mai 20: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Mai 27: Oedfa yng ngofal Dilys.
Mehefin 3: Mr. Tudur Hughes.
Mehefin 10: Oedfa yng ngofal Helen.
Mehefin 17: Parchg. John Gwilym Jones.
Oedfaon am 2.00 yp. Croeso cynnes i bawb.

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN**

 **600723**
Ffacs: 605068

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
**Ffôn: 01248 602480
07967 541870**

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

 **01248 713 369 neu 07813 455653**

Ysgol Abercaseg



**Ymgymwrwr adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

 **01248 601052**

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

TEMPLE MORRIS A'I FAB

**Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.**
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

**07770 900531
01248 600282**
jtemplemorris@btinternet.com

Oriel Ynys Mon
Bu plant Blwyddyn 2 yn Oriel Ynys Mon yn dathlu 100 mlwyddiant geni Syr Kyffin Williams. Cafodd y plant gyfle i edrych ar ei luniau ac efelychu ei waith. Gwelsant botread o hen, hen daid o un o blant sydd yn yr ysgol

Croesi'r Ffordd
Bu plant Blwyddyn 1 yn brysur yn trafod ac yn ymarfer croesi'r ffordd yn ddiogel. Mi fydd sesiynau o groesi'r ffordd yn cael eu cynnal bob wythnos am y tymor.



Clwb Ffrindiau Fftrwydd
Eleni mi fydd plant yr ysgol yn cael cyfle i ymuno â chlwb Ffrindiau Fftrwydd. Bydd y plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau, gemau a chwaraeon i gadw'n heini.

Croeso
Croeso cynnes i Miss Roberts fel ein dirprwy newydd. Edrychwn ymlaen i'w chefnogi a chyd-weithio â hi yn ei rôl newydd.

Agor y gist – grantiau ar gael i gymunedau trwy Gist Gwynedd

Mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol Gwynedd yn cael eu hannog i ystyried gwneud cais am grantiau refeniw a chyfalaf Cist Gwynedd a fydd yn cefnogi amrywiol brosiectau a fyddai'n gwella safon bywyd i drigolion a chymunedau'r sir.

Mae grant Gronfa Datblygu Gwirfoddol Cist Gwynedd yn cynnig cefnogaeth ariannol o hyd at £10,000 i gefnogi gwirfoddolwyr a gwella safon bywyd trigolion Gwynedd.

Yn ogystal, mae Cronfa'r Degwm yn cynnig grantiau o hyd at £3,000 i elusennau cofrestredig a grantiau bychan o £300 i Eisteddfodau lleol yng Ngwynedd.

Mae pecynnau ymgeisio ar gyfer y cronfeydd yma ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru/cronfadatblygugwirfoddol

Mae Cist Gwynedd hefyd yn gweinyddu Cronfa Cist

Cymunedol - oedd yn arfer cael ei galw yn Sportlot - yng Ngwynedd. Mae'r gronfa yma yn cynnig grantiau o hyd at £1,500 i grwpiau chwaraeon, cymunedol a ffitrwydd, ar gyfer prosiectau sy'n arwain at fwy o bobl yn cymryd rhan, a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Mae'r ffurflen gais a chanllawiau ar gael ar-lein ar wefan Chwaraeon Cymru: <http://sport.wales/communitychest> - cliciwch ar y botwm "Ymgeisio Ar-Lein" gwyrdd.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar gyfer y Gronfa Datblygu Gwirfoddol a Chronfa'r Degwm ydi 30 Ebrill a 30 Mehefin, 2018.

Y dyddiadau cau ar gyfer Cronfa Cist Cymunedol (Sportlot) ydi: 11 Mehefin, 6 Medi, 5 Tachwedd, 2018 a 10 Ionawr 2019.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda swyddfa Cist Gwynedd ar 01286 679 15

Ysgol Pen-y-bryn

Deian a Loli

Llongyfarchiadau i bawb a gymrodd ran ar gyfer penodi 'Deian a Loli' newydd ar gyfer rhaglen S4C. Llwyddodd Cari i gyrraedd y 40 olaf, Gruff i'r 6ed olaf a Ruby - Grace yn 2il. Rydym yn falch iawn ohonoch - Arbennig!



"Mewn Cymeriad Roald Dahl"

Cafodd blwyddyn 5 a 6 y cyfle i gael ymweliad "Mewn Cymeriad" Roald Dahl. Cawsom flas o straeon hynod diddorol, a llawer o hwyl wrth ddod i adnabod cymeriadau unigryw yr awdur dawnus hwn. Yn ddiôs, atgyfnerthodd y gweithdy at ein gwybodaeth, er mwyn ysgrifennu bywgraffiad effeithiol. Diolch i Tudur, am ddod atom unwaith eto, ac i roi cyflwyniad mor fywiog!!



Carneddi

Llongyfarchiadau i Bleddyn ac Angharad Fron, Cilfodan, ar achlysur eu priodas yn Nant Gwrtheyrn ar Fawrth 24ain.



Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Wedi gorfod gohirio ein Cyfarfod Blynyddol ynghynt yn y flwyddyn, cynhaliwyd ef ar nos Fawrth, Mai 1af yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda. Agorwyd y noson gan y Cadeirydd Dafydd Meurig ac etholwyd y swyddogion canlynol ar y pwyllgor busnes:
Cadeirydd: Paul Rowlinson
Is gadeirydd: Bleddyn Williams
Ysgrifennydd: Mary Jones
Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth: Neville Hughes

Yn ei sylwadau eglurodd Dafydd Meurig ar ran pwyllgor y gangen y byddwn yn mabwysiadu trefn newydd eleni. Yn hytrach na chyfarfod bob mis fel cangen y byddwn yn cyfarfod ar adegau yn unig fel pwyllgor busnes ac y byddai rhai eraill, yn ôl eu diddordebau, yn cyfarfod i drafod ac i drefnu gweithgareddau mewn sefyllfaodd llai ffurfiol gan roi pwyslais arbennig ar yr ieuenctid. Wedyn edrychodd Dafydd yn ôl ar y flwyddyn 2017, y flwyddyn a ddaeth a dwy etholiad, un ohonynt heb ei disgwyl. Er hynny bu'n flwyddyn dda I'r baid yn y dyffryn gan ethol pedwar Cynghorydd Sir Plaid Cymru ac ail ethol Hywel Williams fel A.S. Gwnaethpwyd y sylw y byddai Dafydd Orwig wedi bod wrh ei fodd.

Daeth Paul i'r gadair fel cadeirydd newydd a diolchodd i Dafydd am ei waith. Llongyfarchwodd y Cynghorydd Dafydd Meurig hefyd ar ddod yn ddirprwy arweinydd Cyngor Gwynedd. Gorchwyl Paul wedyn oedd estyn croeso i'n siaradwr gwâdd sef Aaron Wynne. Yn ogystal a bod yn drefnydd etholaeth Plaid Cymru

mae Aaron hefyd yn gynghorydd sir yn cynrychioli Llanrwst ar Gyngor Conwy, ac ef yw'r cynghorydd sir ieuengaf yng Nghymru.

Cawsom hanes Aaron a nifer o aelodau o Plaid Ifanc yng Nghatalunia yn ystod y refferendwm a gynhaliwyd yno ar 21ain o Ragfyr. Roedd yn rhoi dewis i'r bobl unai bod Catalonia yn annibynnol neu ddim. Cyhoeddodd y llywodraeth yn Sbaen na fyddai yr etholiad hon yn gyfreithiol, ond penderfynodd llywodraeth Catalonia i ddal ymlaen efo'r trefniadau. Roedd protestio mawr ar strydoedd Barcelona cyn y diwrnod mawr ac roedd llywodraeth Sbaen am anfon byddin o'u heddlu i Gatalunia er mwyn atal yr etholiad. Plaid Genedlathol Catalonia ydy Esquerra a'r adran ieuenctid yw Jerc, ac er mwyn eu cefnogi hwy aeth Plaid Ifanc Cymru yno.

Gwelsom luniau dychrynlyd o'r diwrnod, heddlu Sbaen yn taro a gwthio pobl i lawr grisiau, cau gorsafoedd pleidleisio a difetha pleidleisiau. Roedd Aaron a'r criw yn mynd o orsaf i orsaf gan anfon negeseuon at bawb i ddweud pa mor saff, neu ddim, oedd hi yn y gwahanol lefydd. Roedd rhai oedd yn pleidleisio Na yr un mor filain oherwydd eu bod wedi cael eu hamddifadu o'u hawl i bleidleisio.

Heddiw er bod y bleidlais wedi mynd o blaid annibyniaeth mae llywodraeth Sbaen yn ei wrthod ac mae llawer o arweinyddion Catalonia dan glo. Mae raliau enfawr wedi eu cynnal ym Marcelona a'r frwydr yn dal ymlaen. Dywedodd Aaron bod y profiad wedi bod yn un arbennig ond ysgytwol iawn.

Diolchwyd iddo am agor ein llygaid ninnau. Er bod llawer ohonom wedi dilyn y digwyddiadau ar y cyfryngau a'r cyfryngau torfol, roedd yn wahanol iawn yn dod o lygad y ffynnon.

Nyth Y Gân

Y Tair Marblen
(Yn seiliedig ar stori gan y Parch. E. Tegla Davies.)

Un tro fe drowyd hen ffatri
Yn lle i addoli Duw,
Ac yno fe gaed cynulleidfa
I droi'r adeilad yn fyw.

Daeth bachgen bach tlawd i'r gwasanaeth,
Ni wyddai ef beth oedd y drefn,
A chyn i'r oedfa hon gychwyn
Eisteddodd ar fainc yn y cefn.

Fe welodd ef un o'r dynion
Yn dod hefo plât yn ei law;
Hel casgliad boreol yr ydoedd
A chafodd y bachgen gryn fraw.

O'i boced, â'i law yn grynedig,
Dod o hyd i dair marblen a wnaeth
A'u rhoi ar y plât yn daclus,
Rhoi'r cwbl oedd ganddo - fel saeth.

Pan oeddynt yn cyfri'r casgliad,
Y marblis a welsant hwy;
Ond er holi am hynt y bachgen,
Roedd wedi diflannu o'r plwy.

Yn lle'r hen ffatri honno
Fe godwyd capel twt,
Ac o dan y garreg sylfaen
Fe roddwyd tair marblen y crwt.

Y Lleuad uwch y Mynydd
Yn wyn fel gwlân yr oenig, yn llithro
Uwchlaw'r llethrau unig,
Mae'n haeddu'r lle mynyddig,
Yno'n braf uwchben y brig.

Atgofion
Mae'n od fel mae cyfnodau yn chwarae
A chwerwi'n meddyliau
O hudo'r digwyddiadau
Yn y maes pan oeddem iau.

Noson Aeafol
Marwaidd yw'r coed am erwau, a hwythau
Heno'n noeth eu brigau;
Mae'n anodd arnom ninnau
Yn y gwynt â'r nos ar gau.
Dafydd Morris



Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan

gair neu ddau

John Pritchard

Deugain Niwrnod

Cyfnod byr ydi deugain niwrnod. Ond gall wibio heibio fel deugain eiliad, heb roi amser i ni gyflawni nemor ddim. Gall hefyd lusgo fel deugain mlynedd, heb i ni gyflawni pob dim a oedd yn bosibl. Deugain niwrnod yn unig y bu Iesu gyda'i ddisgyblion wedi'r Atgyfodiad; dim mwy na hynny. Ac nid deugain niwrnod llawn chwaith gan mai mynd a dod oedd ei hanes dros y dyddiau hynny: ymddangos iddynt, cyn diflannu o'u golwg yr un mor sydyn. Mae rhai o'r ymweliadau hynny wedi eu cofnodi yn y Testament Newydd, fel yr hanesion am Iesu'n cyfarfod â Mair Magdalen ac yn sgwrsio â dau ddisgybl ar y ffordd i Emaus ac yn cysuro Simon Pedr.

Ond er mor fyr y cyfnod hwn, yr oedd yn ddigon. Yn ddigon hir, i Iesu fedru argyhoeddi'r disgyblion ei fod wedi dod yn ôl yn fyw; yn ddigon iddo gysuro Mair yn ei hiraeth, a goleuo'r ddau ffrind yn eu dryswch, a sicrhau Pedr fod maddeuant hyd yn oed am ei wadu. Ond yn ddigon byr hefyd i Iesu fedru dangos i'w ddisgyblion na fyddai'n aros efo nhw'n barhaol; yn ddigon i'w sicrhau ei fod ar fin eu gadael, a rhoi ar ddeall iddynt i ble oedd yn mynd. Roedd deugain niwrnod yn fwy na digon ar gyfer hyn oll.

Ac ar derfyn y deugain niwrnod, fe'u gadawodd. Ond nid yn yr un modd ag yr oedd wedi eu gadael y troeon eraill yn ystod y deugain niwrnod hynny.

Roedd y gadael hwn yn wahanol ac yn derfynol. Yn ystod y deugain niwrnod, roedd Iesu wedi ymddangos a diflannu. Ond ar derfyn y deugain niwrnod daw'r disgyblion i ddeall fod y mynd a'r dod ar ben ac na fyddent yn gweld Iesu wedi hynny gan iddynt ei weld yn cael ei godi oddi ar y ddaear i'r awyr, i'w gipio ymaith gan gwmwl. Ar sail yr hyn a ddywedodd Iesu ei hun wrthynt ac ar sail geiriau'r angylion a welsant wedi i Iesu fynd, deallai'r disgyblion mai i'r nefoedd yr oedd wedi mynd ac y byddai ryw ddydd yn dychwelyd, er nad i gadw cwmni iddynt am ychydig ddyddiau mewn byd o amser ar y ddaear hon y byddai hynny.

Mae llawer i'w ddweud am esgyniad Iesu, y peth unigryw hwn a ddigwyddodd ymhen deugain niwrnod i'w atgyfodiad. Ond am y tro, caiff un peth yn unig fod yn gysur ac yn obaith i mi. Cafodd yr un a addawodd, 'Yr wyf fi'n mynd i baratoi lle i chwi' (Ioan 14:2) ei dderbyn i'r nefoedd, a dyna sy'n rhoi i ni'r sicrwydd y cawn ninnau ein derbyn i'r nefoedd trwyddo. Ie, cyfnod byr yw deugain niwrnod, ond roedd yn fwy na digon i Iesu roi gwybod i'r disgyblion ac i ninnau fod y nefoedd yn aros ei bobl ef ar derfyn bywyd yn y byd hwn, pa mor fyr neu hir bynnag y bydd ein dyddiau a'n blynyddoedd yma.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor gwaith Plaid Lafur Arfon yng Nghaernarfon, yn bennaf i drafod awgrymiadau'r comisiwn ffiniau ar gyfer wardiau Cyngor Gwynedd, sef gostwng nifer y cynghorwyr o 75 i 69 - gyda'r bwriad i ostwng y nifer i 61 y tro nesaf. Cytunwyd efo barn Cyngor Bethesda a barn Cangen Bethesda i dderbyn yr awgrym o gael tri chynghorydd yn ardal Cyngor Bethesda yn lle'r dau presennol ond i wrthwynebu'r awgrym o gael un sedd efo'r tri aelod h.y i annog tair ward efo un aelod ym mhob ward.

Yng nghanol y mis aeth nifer o

aelodau'r gangen i gyfarfod pob aelod o Blaid Lafur Arfon ym Mangor, yn bennaf i drafod ymgyrchu am faterion lleol a chenedlaethol. Dilynwyd hyn y bore wedyn gan weithgaredd yng nghanol Caernarfon, gan dynnu sylw at gyrhaeddiadau Llywodraeth Lafur Cymru o dan arweiniad Carwyn Jones.

Wedyn, tua diwedd y mis, aeth rhai o aelodau'r gangen i gynhadledd blynyddol Plaid Lafur Cymru yn Llandudno. Yno, cymeradwywyd cynnig gan Blaid Lafur Arfon i barhau efo bwrsariau yng Nghymru ar gyfer pobl sy'n astudio i fod yn nyrs, heb ystyried prawf modd.

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhos Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Porthaethwy Benllech
(01248) 723106 (01248) 719517 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000

Chwaraeon

RYGBI

Tymor anodd i'r Tîm Cyntaf
Cafodd cefnogwyr ffyddlon Clwb Rygbi Bethesda dymor pryderus iawn tra'n dilyn y Tîm Cyntaf yn ystod tymor 2017-18. Er hynny, cafwyd cefnogaeth niferus ym mhob un o'r gemau oddi cartref ar hyd y gogledd. Roedd y gefnogaeth i'r gemau cartref yn hynod galonogol hefyd.

Erbyn dechrau mis Tachwedd roedd Bethesda wedi chwarae 7 gêm cynghrair a 2 gêm gwpan ac wedi colli pob un ohonyn nhw. Roedd y tîm ar waelod Adran 1 Gogledd efo dim ond 1 pwynt bonws sydd i'w gael am golli gêm o fewn 7 bwynt i'r enillwyr.

Doedd dim yn bod ar yr ymdrech ar y cae ond roedd posibilrwydd y buasai'r Tîm Cyntaf yn gorfod wynebu teithiau hir i ganolbarth Cymru y tymor nesaf.

Yna daeth tro ar fyd!
Ar ôl ennill o 14 pwynt i 10 yn erbyn y Cofis ar Dôl Ddafydd, enillodd Bethesda 8 gêm allan o'r 14 oedd yn weddill am y tymor gan orffen yn 8fed yn y tabl uwchben Caernarfon, Bro Ffestiniog, Dolgellau a Bae Colwyn. Roedd yr ymdrechion yn ganmoladwy iawn a'r ysbryd ar y cae, ac oddi arno, ymysg y chwaraewyr a'r hyfforddwyr yn ardderchog.

Prif sgoriwr y clwb dros y tymor oedd Gethin Long gyda 129 pwynt - 11 cais, 19 trosiad a 12 gôl gosb.

Y Tîm Ieuenctid
Ar b'nawn heulog braf o Fai enillodd Y Tîm Ieuenctid Gystadleuaeth Powlen Gogledd Cymru drwy guro'r Drenwydd o 46 pwynt i 7. Sgoriodd yr hogia' 6 o geisiau - 2 i Dafydd

Williams ac un yr un i Wil Parry, Harri Phillips, Aaron Williams a Siôn Davies. Ciciodd Ben Williams 5 trosiad a 2 gôl gosb. Dyfarnwyd y canolwr Wil Parry yn Seren y Gêm. Hyfforddwyr Bethesda oedd Richard Ogwen Jones, Gerallt Hughes a Bill Huaki. Huw Jones oedd yng ngofal cymorth cyntaf y tîm.

- Gwobrwyo*
Yn Noson y Capten yn y clwb yn ddiweddar dyfarnwyd mai -
- Chwaraewr y Flwyddyn oedd y prop Jack Owens.
 - Chwaraewr Mwyaf Addawol y Flwyddyn oedd y clo Cai Price Jones.
 - Y Chwaraewr wnaeth y Cynnydd Mwyaf oedd yr asgellwr Gwion Williams.
 - Chwaraewr y Flwyddyn i'r Ail Dîm oedd y blaenagellwr Gethin Harper.
 - Chwaraewr y Flwyddyn i'r Tîm Ieuenctid oedd Siôn Davies.
 - Y Chwaraewr wnaeth y Cynnydd Mwyaf i'r Tîm Ieuenctid oedd Rhys Puw.

Taith
Bydd carfan o chwaraewyr y clwb yn chwarae mewn cystadleuaeth 10 Bob Ochr yn Dendermonde yng Ngwlad Belg yn ystod mis Mai. Mae'r clwb yn ddiolchgar iawn i nifer o fusnesau lleol sydd wedi noddi'r daith.

Edrych ymlaen
Mae chwaraewyr, cefnogwyr a swyddogion y clwb yn edrych ymlaen yn arw i fwynhau'r cyfleusterau newydd fydd ar Dôl Ddafydd ar ôl yr haf. Mae croeso i bawb ddod i'n gweld yn ein cartref newydd!

CYNGHRAIR DOMINOS

Dyma luniau o Noson Bencampwriaeth Cynghrair Dominos Bethesda a gynhaliwyd ar Fai 1af yn y Clwb Criced a Bowlio. Cawn fwy o luniau a chanlyniadau y mis nesaf. Diolch i Bob Temp am y lluniau.



Bryn Evans, capten Bull A yn derbyn y darian gan y cadeirydd Dick Bers neu Richard Berwyn Owen.



Y ddau Gwynfor yn erbyn ei gilydd yn y gwpan sef Gwynfor Owen Bull B, a Gwynfor (Bull) Jones Bull A. Dafydd Gwilym sy'n marcio

BOWLIO

O'r diwedd dyma'r tymor wedi dechrau er oerni a gwynt a glaw. Mae'r Tîm Sadwrn wedi chwarae pedair gêm yn barod, gan golli tair ac ennill un. Mae Derek Roberts wedi curo pedair gêm ac yn bedwerydd ar restr unigolion y gynghrair.
Dyma'r canlyniadau hyd yma:- Bethesda 4 - Mochdre 8; Bethesda 5 - Llanelwy 7; Bethesda 4 - Prestatyn 8; Bethesda 8 - Benllech 4.
Mae Tîm Nos Fercher yn chwilio am eu buddugoliaeth cyntaf ar ôl colli yn erbyn Llanfairpwll (10 i 0), Biwmares (10 i 0) a Chaergybi (8 - 2). Rhaid gafael ynddi i godi o waelod y tabl!
Mae Tîm Dydd Mawrth, sef Marchogion Maldwyn, wedi dechrau'r tymor gyda buddugoliaeth dda gan guro Peibio o 8 pwynt i 1. George Owen, Heddwyn Morris a'r pâr, Maldwyn a John Baston yn serennu.

